

National Infrastructure
Planning
Temple Quay House
2 The Square
Bristol
BS1 6PN

Gwasanaethau
Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: awelymor@planninginspectorate.gov.uk

Pob Parti â Buddiant, Partïon Statudol ac
unrhyw unigolyn arall a wahoddwyd i'r
Cyfarfod Rhagarweiniol

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010112

Dyddiad: 23 Awst 2022

Annwyl Syr / Madam

**Deddf Gynllunio 2008 – Adran 88 a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn
Archwilio) 2010 – Rheol 4, Rheol 6, Rheol 9, Rheol 13**

**Cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd
Datblygu ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr**

**Penodi'r Awdurdod Archwilio, Gwahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol, Amserlen
ddrafft yr Archwiliad, Penderfyniadau Gweithdrefnol a Hysbysiad o Wrandawiadau**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn fy mhenodiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel aelod arweiniol
Panel a fydd yr Awdurdod Archwilio i gynnal archwiliad o'r cais uchod. Fy enw yw Jon
Hockley ac aelodau eraill y Panel yw Alex Hutson, Helen Cassini, Jason Rowlands a
Richard Morgan. Gellir gweld copi o'r [hysbysiad penodi](#) o dan y tab 'Documents' ar wefan
y prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Hoffai'r Awdurdod Archwilio ddiolch i'r rheiny ohonoch a gyflwynodd Sylwadau Perthnasol.
Mae'r sylwadau hyn wedi cynorthwyo'r Awdurdod Archwilio wrth baratoi ei gynigion ynglŷn
â sut i archwilio'r cais hwn.

Mae'r llythyr hwn yn wahoddiad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol i drafod y weithdrefn ar gyfer yr
archwiliad o brosiect arfaethedig Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr. Mae'n cynnwys nifer o
atodiadau ategol pwysig, gan gynnwys **Atodiad A** (yr Agenda). Mae **Atodiad B** yn
cyflwyno'r Cyfarfod Rhagarweiniol, yn egluro sut y caiff ei gynnal a sut y gallwch chi
gyfranogi.

Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mawrth 20 Medi 2022

**Seddau ar gael/
Cynhadledd Trefniadau o: 9.15am**

Cyfarfod yn dechrau am: 10.00am

Lleoliad: **Digwyddiad rhithwir (Microsoft Teams¹) ac Ystafell y Stiwdio, Venue Cymru, Y Promenâd, Llandudno LL30 1BB**

Mynediad a pharcio: **Mae Venue Cymru yn gweithredu maes parcio Talu ac Arddangos yng nghefn yr adeilad, gyda baeau parcio dynodedig i bobl anabl i'r chwith o'r brif fynedfa. Mae lle parcio ar gael ar y Promenâd hefyd, sef trefn Talu a Pharcio hyd nes 4pm, ac ar ôl hynny mae'n ddi-dâl. Gellir cael rhagor o wybodaeth [yma](#).**

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol yw galluogi rhoi barnau i'r Awdurdod Archwilio ynghylch y ffordd y mae'r cais i'w archwilio. Yn y cam hwn, mae'r Panel yn edrych ar weithdrefn yr Archwiliad ac nid ar rinweddau'r cais, na phryderon yn ei gylch. Bydd rhinweddau'r cais, neu bryderon ynghylch y cais, ond yn cael eu hystyried pan fydd yr Archwiliad yn dechrau; sef ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol orffen. Gweler **Atodiad B** a [Nodyn Cyngor 8.3 yr Arolygiaeth Gynllunio: y Cyfarfod Rhagarweiniol](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Mae'r agenda ar gyfer y cyfarfod yn **Atodiad A**. Mae hwn wedi'i bennu yn dilyn ein Hasesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion, yn deillio o ddarllen dogfennau'r cais a'r Sylwadau Perthnasol a dderbyniwyd. Mae'r asesiad hwnnw wedi'i nodi yn **Atodiad C**. Yn dilyn ymlaen o'r asesiad hwn, rydym wedi gwneud cynigion manwl yn Amserlen ddrafft yr Archwiliad a nodir yn **Atodiad D** a byddem yn dymuno clywed gennych os ydych o'r farn fod angen gwneud newidiadau i'r amserlen hon.

Bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn cael ei gynnal fel digwyddiad cyfunol. Mae hyn yn golygu y bydd yn cael ei gynnal fel digwyddiad rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams yn ogystal â digwyddiad mynychu'n bersonol. Ar gyfer gwrandawiadau yn y dyfodol sy'n ffurfio rhan o'r archwiliad o'r prosiect hwn, gallai'r Awdurdod Archwilio ystyried p'un a ddylent gael eu cynnal fel digwyddiadau mynychu'n bersonol, digwyddiadau cyfunol neu rithwir, a byddem yn croesawu barnau Partïon â Buddiant ar y mater hwn yn y Cyfarfod Rhagarweiniol.

Mynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Os hoffech fynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol, cysylltwch â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion a nodir ar frig y llythyr hwn, yn cadarnhau p'un a ydych yn dymuno cyfranogi'n rhithwir drwy Microsoft Teams neu fynychu'r cyfarfod yn bersonol. Neu gallwch gofrestru eich presenoldeb gan ddefnyddio'r ffurflen hon: <https://forms.office.com/r/fvkkP2CyJ7>

Cadarnhewch hyn ddim hwyrach na Therfyn Amser Gweithdrefnol A, Dydd Gwener 9 Medi 2022.

Os ydych chi'n bwriadu ymuno â'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn rhithwir, gan fod cyfranogi yn y modd hwn yn dibynnu ar ddarparu dolen ymuno neu rif ffôn ymlaen llaw, mae'n bwysig

¹ Bydd cyfarwyddiadau llawn ynghlŷn â sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu cyn y cyfarfod i'r rheiny sy'n cofrestru i gymryd rhan

eich bod yn ystyried p'un a ydych yn dymuno siarad a chadarnhau eich cyfranogiad. Fel arall, os teimlwch na allwch ymgysylltu yn y Cyfarfod Rhagarweiniol a digwyddiadau pellach yr Archwiliad drwy unrhyw rai o'u dulliau a ddisgrifiwyd yn [Nodyn Cyngor 8.6: digwyddiadau Archwiliad Rhithwir](#), cysylltwch â'r Tîm Achos i drafod sut gallwch gyfranogi yn y Cyfarfod Rhagarweiniol.

Bydd o gymorth o ran rheoli'r cyfarfod ac o fudd i bawb os byddwch hefyd, fel rhan o'r cadarnhad ysgrifenedig hwn, yn:

- dweud wrthym a ydych yn dymuno siarad yn y cyfarfod ac ynghylch pa eitemau ar yr agenda y bwriadwch siarad, gan restru'r pwyntiau yr hoffech eu gwneud.
- os ydych chi'n mynychu'n bersonol, rhoi gwybod i ni am unrhyw ofynion arbennig a allai fod gennych (e.e. mynediad i'r anabl, dolen glywed ac ati).

Mae'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn gyflwyniad defnyddiol i'r broses Archwiliad. Byddwn yn ei ddefnyddio i wneud Penderfyniadau Gweithdrefnol a fydd yn effeithio ar bawb sy'n cyfranogi yn yr Archwiliad. Mae'r cyfarfod yn cynnig cyfle i chi ddweud eich dweud ynglŷn â materion gweithdrefnol cyn rhoi'r wedd derfynol ar y penderfyniadau hyn. Os ydych yn bwriadu chwarae rhan weithredol yn yr Archwiliadau neu os oes cwestiynau gennych ynglŷn â gweithdrefn, mae'n fuddiol i fynychu'r cyfarfod.

Rydym yn dymuno cynnal cyfarfod teg, effeithlon ac effeithiol fel y gellir gwrando'r holl farnau perthnasol. Fodd bynnag, nodwch **nad yw'n ofynnol i chi fynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol er mwyn cymryd rhan yn yr Archwiliad**. Os ydych chi'n Barti â Buddiant, byddwch yn dal i allu gwneud Sylw Ysgrifenedig a rhoi eich barn ar y Sylwadau Ysgrifenedig a wneir gan Bartïon eraill â Buddiant. Byddwch hefyd yn gallu cymryd rhan mewn unrhyw wrandawiadau a drefnir. Pe na baech yn dymuno bod yn Barti â Buddiant mwyach, ac nad ydych eisiau bod yn rhan o broses yr Archwiliad, gallwch hysbysu'r Tîm Achos am hyn yn ysgrifenedig. Rydym hefyd yn annog yn gryf bod grwpiau o unigolion sydd â barnau tebyg ynglŷn â gweithdrefn yn dewis un cynrychiolydd i siarad ar ran eu grŵp.

Bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn cael ei ffrydio'n fyw a'i recordio. Hefyd, bydd recordiad sain a nodyn o'r cyfarfod yn cael eu cyhoeddi ar [wefan y prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol](#).

Ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol

Ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol, anfonir llythyr atoch yn nodi'r Amserlen derfynol yr Archwiliad (gelwir yn llythyr Rheol 8).

Proses ysgrifenedig fydd yr Archwiliad yn bennaf (gweler [Nodyn Cyngor 8.4: Yr Archwiliad](#)), wedi'i ategu dim ond lle bo'n angenrheidiol gan fathau amrywiol o wrandawiadau (gweler [Nodyn Cyngor 8.5: Gwrandawiadau ac ymweliadau safle](#) a [Nodyn Cyngor 8.6: Digwyddiadau Archwiliad Rhithwir](#)). Bydd Amserlen derfynol yr Archwiliad yn nodi trefniadau ac amserau ar gyfer cyflwyno Sylwadau Ysgrifenedig, ac i ni gyhoeddi a chyflwyno ymatebion i Gwestiynau Ysgrifenedig ein Harchwiliad.

Mae Deddf Gynllunio 2008 yn pennu proses ysgrifenedig yn bennaf ar gyfer archwilio ceisiadau am Orchmynion Caniatâd Datblygu a **bydd sylwadau a wneir yn ysgrifenedig yr un mor bwysig â sylwadau llafar** ym mhob cam o'r broses.

Mae gan Bartion â Buddiant yr hawl i ofyn am Wrandawriad Llawr Agored. Gall yr unigolion hynny yr effeithir arnynt gan unrhyw gais am Gaffaeliad Gorfodol neu Feddiant Dros Dro o'u tir neu'u hawliau ofyn am Wrandawriad Caffaeliad Gorfodol. Cynhelir Gwrandawiadau Mater Penodol ar ddisgresiwn y Panel ac fe'u trefnir lle teimlwn y byddai ystyried sylwadau llafar yn sicrhau bod mater yn cael ei archwilio'n ddigonol.

Bydd yr holl faterion perthnasol a phwysig yn cael eu hystyried pan fyddwn yn gwneud argymhelliad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol yn yr achos hwn.

Hysbysiadau o wrandawiadau cynnar

Fel yr hysbyswyd yn **Atodiad E** i'r llythyr hwn, rydym wedi gwneud Penderfyniadau Gweithdrefnol i gynnal y gwrandawiadau canlynol yn ystod wythnos gyntaf yr Archwiliad:

- Gwrandawriad Mater Penodol (ISH1) ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) ddydd Mercher 21 Medi 2022 i ddechrau am 10.00am. Rhoddir rhagor o wybodaeth yn **Atodiad F**; a
- Gwrandawriad Llawr Agored (OFH1) Ddydd Iau 22 Medi 2022 i ddechrau am 10.00am. Gellir cael mwy o wybodaeth yn **Atodiad G**.

Os dymunwch wneud sylwadau llafar yn unrhyw rai o'r gwrandawiadau hyn, cysylltwch â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn. **Bydd angen i ni dderbyn hysbysiad o'ch presenoldeb ddim hwyrach na Therfyn Amser Gweithdrefnol A, Dydd Gwener 9 Medi 2022.**

Yn yr un modd ag ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol, bydd o gymorth o ran rheoli'r gwrandawiadau hyn ac o fudd i bawb pe gallech roi gwybod i ni p'un a ydych yn dymuno siarad yn un o'r gwrandawiadau neu'r ddau, ynghylch pa eitemau ar yr agenda y bwriadwch siarad (ar gyfer ISH1), gan restru'r pwyntiau yr hoffech eu gwneud; a'n hysbysu ni am unrhyw ofynion arbennig a allai fod gennych (e.e. mynediad i'r anabl, dolen glywed ac ati). Bydd gwasanaethau cyfieithu Cymraeg ar gael yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol ac mewn unrhyw wrandawiadau yn y dyfodol.

Bydd hysbysiadau ychwanegol am wrandawiadau y bwriedir eu cynnal yn ddiweddarach yn yr Archwiliad yn cael eu darparu wrth i'r Archwiliad fynd rhagddo.

Penderfyniadau Gweithdrefnol eraill a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Yn ychwanegol at y gwrandawiadau a hysbyswyd uchod, rydym wedi gwneud sawl Penderfyniad Gweithdrefnol pellach sydd wedi'u hamlinellu'n llawn yn **Atodiad H**.

Fe'u crynhoir fel a ganlyn:

- Gosod terfynau amser ar gyfer cyflwyno Datganiadau Tir Cyffredin;
- Ceisiadau am ddogfennau diweddaredig rheolaidd trwy gydol yr Archwiliad, gan gynnwys Canllaw i'r Cais wedi'i ddiweddarau, fersiynau sy'n dangos newidiadau o'r holl ddogfennau diwygiedig i'w cyflwyno a'r Datganiad Polisi Cenedlaethol a thraciwr/diweddariadau'r Drwydded Forol;
- Ceisiadau am Adroddiadau ar yr Effaith Leol erbyn Terfyn Amser 1;
- Ceisiadau am gyflwyniadau cloi erbyn Terfyn Amser 8; a

- Derbyn Cyflwyniadau Ychwanegol ar ôl gwneud cais i'r Archwiliad

Rheoli gohebiaeth Archwiliad

O ystyried nifer ac amllder y llythyrau y mae angen i'r Arolygiaeth Gynllunio eu hanfon at Bartïon â Buddiant yn ystod yr Archwiliad, amcanwn i gyfathrebu â phobl trwy e-bost, lle bynnag y bo modd, gan fod cyfathrebu electronig yn fwy ecogyfeillgar a chost-effeithiol i'r trethdalwr. Os ydych wedi derbyn gohebiaeth drwy'r post yn gwneud cyswllt ar yr achlysur hwn ond eich bod yn gallu derbyn cyfathrebiadau'n uniongyrchol trwy e-bost, rhowch wybod i'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn cyn gynted ag y bo modd.

Bydd gwybodaeth ddiweddar, holl ddogfennau'r cais a gohebiaeth ynglŷn â'r prosiect a'r Archwiliad yn cael eu darparu ar [wefan y prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol](#). Gan fod proses yr Archwiliad yn gwneud defnydd sylweddol o ddogfennau electronig, bydd yn ddefnyddiol i chi ymgyswrtu â'r adnodd hwn.

Ceir gwybodaeth am gyflwyno adeg terfynau amser yr archwiliad yn **Atodiad I**.

Mae swyddogaeth ar ochr dde tudalen y prosiect o'r enw 'Diweddariadau e-bost'. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi gofrestru i dderbyn diweddariadau awtomatig drwy'r e-bost ar gamau allweddol yn ystod yr Archwiliad.

Eich statws yn yr Archwiliad

Rydych wedi derbyn y llythyr hwn gan eich bod yn dod o fewn un o'r grwpiau a ddisgrifiwyd yn nogfen Cwestiynau Cyffredin yr Arolygiaeth Gynllunio '[Beth yw fy Statws yn yr Archwiliad?](#)'

Os yw eich rhif cyfeirnod yn dechrau gyda 2002 neu AYMO-AFP rydych yng Ngrŵp A. Os yw eich rhif cyfeirnod yn dechrau gydag AYMO-SP rydych yng Ngrŵp B. Os yw eich rhif cyfeirnod yn dechrau gydag AYMO-OP rydych yng Ngrŵp C. Caiff ystyr a diben y grwpiau hyn eu hegluro yn y ddogfen Cwestiynau Cyffredin a gyhoeddwyd yn y ddolen uchod.

Ar ôl darllen y ddogfen Cwestiynau Cyffredin, os ydych yn dal yn ansicr ynglŷn â'ch statws, cysylltwch â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn.

Dyfarnu costau

Fel arfer, disgwylir i bob parti dalu ei gost ei hun. Gellir dyfarnu costau yn erbyn parti sydd wedi ymddwyn yn afresymol ac wedi achosi i'r parti sy'n gwneud cais am ddyfarnu costau fynd i gost ddiangen neu wastraffus yn ystod yr Archwiliad. Dylech fod yn ymwybodol o'r canllawiau costau perthnasol: [Dyfarnu costau: archwiliadau o geisiadau am orchmynion caniatâd datblygu](#).

Rheoli gwybodaeth a therfynau amser

Mae'r wybodaeth, gan gynnwys sylwadau, a gyflwynir mewn perthynas â'r Archwiliad hwn (os caiff ei derbyn gan yr Awdurdod Archwilio) a chofnod o unrhyw gyngor a ddarparwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio, yn cael eu cyhoeddi ar [wefan y prosiect ar y wefan Cynllunio](#)

[Seilwaith Cenedlaethol](#). Nodwch, oni phennwyd fel arall, yr holl derfynau amser yn Amserlen ddrafft yr Archwiliad (**Atodiad D**) ac fel y cyfeiriwyd atynt yn y llythyr hwn yw 23:59 ar ddiwrnod y terfyn amser.

Gellir gweld dogfennau'r Archwiliad yn electronig hefyd yn y lleoliadau a restrir yn **Atodiad J** i'r llythyr hwn.

Sylwer, er mwyn hwyluso Archwiliad effeithiol a theg, mae angen cyhoeddi rywfaint o wybodaeth bersonol. I gael gwybod sut rydym yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol, ewch i'n [Hysbysiad Preifatrwydd](#).

Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r holl bartïon yn yr Archwiliad o'r cais hwn.

Yr eiddoch yn gywir

Jon Hockley

Aelod Arweiniol yr Awdurdod Archwilio

Atodiadau

- A** Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol
- B** Cyflwyniad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol
- C** Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion
- D** Amserlen ddrafft yr Archwiliad
- E** Hysbysiad o'r Gwrandawiaadau
- F** Gwybodaeth bellach am y Gwrandawriad Mater Penodol i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft
- G** Gwybodaeth bellach am y Gwrandawriad Llawr Agored
- H** Penderfyniadau Gweithdrefnol Eraill gan yr Awdurdod Archwilio
- I** Gwybodaeth am gyflwyno adeg terfynau amser yr archwiliad
- J** Argaeledd Dogfennau'r Archwiliad

Nid yw'r cyfathrebiad hwn yn gyfystyr â chynghor cyfreithiol.
Edrychwch ar ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.

Agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol

Dyddiad:	Dydd Mawrth 20 Medi 2022
Seddau ar gael/ Cynhadledd Trefniadau o:	9.15am
Amser dechrau'r cyfarfod:	10.00am
Lleoliad:	Digwyddiad rhithwir (Microsoft Teams¹) ac Ystafell y Stiwdio Room, Venue Cymru, Promenâd, Llandudno LL30 1BB
Mynediad a pharcio:	Mae Venue Cymru yn gweithredu maes parcio Talu ac Arddangos yng nghefn yr adeilad, gyda baeau parcio dynodedig i bobl anabl i'r chwith o'r brif fynedfa. Mae lle parcio ar gael ar y Promenâd hefyd, sef trefn Talu a Pharcio hyd nes 4pm, ac ar ôl hynny mae'n ddi-dâl. Gellir cael rhagor o wybodaeth yma.

Trefnir bod ffrydiad byw cyhoeddus o'r cyfarfod ar gael ar [wefan y prosiect](#) ychydig cyn bod y cyfarfod yn agor. Mae'r ffrydiad byw yn agored i unrhyw un sy'n dymuno arsylwi'r cyfarfod.

9.15am	Seddau ar gael / Cynhadledd Trefniadau. Bydd y Gynhadledd Trefniadau yn amlinellu'r trefniadau ymarferol ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol i'r rheiny sy'n mynychu'n rhithwir ac yn rhoi cyfle i godi unrhyw bryderon ynglŷn â chymryd rhan yn y cyfarfod.
10.00am Eitem 1	Croeso a chyflwyniadau Bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn agor yn ffurfiol am 10.00am. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn croesawu'r cyfranogwyr ac yn arwain y cyflwyniadau.
Eitem 2	Sylwadau'r Awdurdod Archwilio ynglŷn â phroses yr Archwiliad gan gynnwys cyfeirio, lle bo'n briodol, at unrhyw geisiadau gweithdrefnol at yr eitem hon sydd wedi'u cyflwyno i'r Arolygiaeth

¹ Bydd cyfarwyddiadau llawn ynglŷn â sut i ymuno ar-lein neu dros y ffôn yn cael eu darparu cyn y cyfarfod i'r rheiny sy'n cofrestru i gymryd rhan

	Gynllunio yn ysgrifenedig erbyn Terfyn Amser Gweithdrefnol A, sef 9 Medi 2022 – Atodiad B
Eitem 3	Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion – Atodiad C
Eitem 4	Penderfyniadau Gweithdrefnol a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio – Atodiad H
Eitem 5	Amserlen Ddrafft yr Archwiliad – Atodiad D
Eitem 6	Dyddiadau a fformat y Gwrandawiadau cychwynnol – Atodiadau E, F, a G
Eitem 7	Unrhyw faterion eraill
Cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol	

Byddwch ar gael o ddechrau'r cyfarfod a thrwy gydol y cyfarfod. Gellir newid yr agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio, ond wrth wneud newidiadau, bydd yr Awdurdod Archwilio'n ystyriol o'r angen i gynnig cyfleoedd i'r holl Bartïon â Buddiant gael eu cynnwys yn deg. Bydd yr Awdurdod Archwilio'n diweddu'r cyfarfod cyn gynted ag y bydd yr holl gyfraniadau perthnasol wedi'u gwneud.

Os oes unrhyw faterion ychwanegol i ymdrin â nhw, neu os yw cyflwyniadau'n cymryd cryn dipyn o amser, gall yr Awdurdod Archwilio newid trefn eitemau'r agenda, a gall gyflwyno egwylliau yn y trafodion.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen [Hysbysiad Preifatrwydd yr Arolygiaeth Gynllunio](#) cyn mynychu'r Cyfarfod Rhagarweiniol.

Cyflwyniad i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Cefndir

Bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr yn cael ei gynnal fel digwyddiad cyfunol, yn cynnwys Cyfarfod Rhagarweiniol mynychu'n bersonol, wyneb yn wyneb, a digwyddiad rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn ymwybodol o orflinder fideogynadledda, a bydd yn amcanu i sicrhau bod y trafodion yn cadw ffocws a'u bod mor effeithlon ag y bo modd. Mae'r atodiad hwn yn rhoi mynediad ymlaen llaw at wybodaeth a fyddai fel arfer yn cael ei chynnwys yn sylwadau cyflwyniadol yr Awdurdod Archwilio ar ôl agor y Cyfarfod Rhagarweiniol. Darllenwch hwn yn ofalus. Bydd yr Awdurdod Archwilio ond yn cyflwyno crynodeb o'r prif bwyntiau a amlinellir yma yn y Cyfarfod Rhagarweiniol, er mwyn sicrhau bod gymaint o amser ag y bo modd ar gael i gyfranogwyr siarad.

Yr Awdurdod Archwilio

Bydd aelodau'r Awdurdod Archwilio, Jon Hockley, Helen Cassini, Alex Hutson, Richard Morgan, a Jason Rowlands a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn cyflwyno'u hunain ar ddechrau'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Gellir gweld llythyr penodi'r Awdurdod Archwilio yn Llyfrgell yr Archwiliad o dan y cyfeirnod [\[PD-006\]](#).

Y Tîm Achos

Cefnogi'r yr Awdurdod Archwilio gan Dîm Achos yr Arolygiaeth Gynllunio. Jake Stephens yw'r Rheolwr Achos, a Caroline Hopewell a Lily Robbins yw'r Swyddogion Achos. Bydd aelodau'r Tîm Achos ar gael i ateb cwestiynau trwy e-bost cyn ac ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol, ac yn bersonol yn y Cyfarfod Rhagarweiniol. Y cyfeiriad e-bost cyswllt yw:

awelymor@planninginspectorate.gov.uk

Diben y Cyfarfod Rhagarweiniol

Mae'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn cael ei gynnal i drafod y trefniadau ar gyfer yr archwiliad o'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) ar gyfer prosiect Fferm Wynt Alltraeth Awel y Môr, sy'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP), ac y cyfeirir ato'n gyffredinol yn y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r Archwiliad fel y 'Datblygiad Arfaethedig'. Gwnaed y cais gan Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited, y cyfeirir ato fel 'yr Ymgeisydd'.

Cewch wybodaeth am y cais, a, gyda hyn, y dogfennau a gynhyrchwyd ar gyfer yr Archwiliad ar [dudalen y prosiect](#) ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol yr Arolygiaeth Gynllunio.

Fe'ch anogir i archwilio tudalen y prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, oherwydd bydd yn cael ei defnyddio i gyfathrebu â chi ac i roi mynediad i chi i ddogfennau trwy gydol yr Archwiliad. Ceir yr opsiwn ar dudalen y prosiect i gofrestru i dderbyn diweddariadau, a byddem hefyd yn eich annog i wneud hyn er mwyn i chi dderbyn hysbysiad trwy e-bost ar gamau allweddol yn ystod yr Archwiliad.

Prif ddiben y Cyfarfod Rhagarweiniol yw trafod sut dylai'r cais gael ei archwilio. Mae'n canolbwyntio ar y broses yn unig, ac ni fydd yn edrych ar unrhyw sylwedd y cynigion: mae cwestiynau, trafodaethau a sylwadau ynglŷn â rhinweddau neu bryderon ynglŷn â'r Datblygiad Arfaethedig ar gyfer yr Archwiliad ei hun a fydd yn dechrau ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.

Y Cyfarfod Rhagarweiniol fydd eich cyfle i ddylanwadu ar y broses y bwriadwn ei dilyn, a dylech ddarllen y llythyr Rheol 6 hwn a'r holl atodiadau cysylltiedig yn drylwyr ymlaen llaw. Mae'r agenda ar gyfer y Cyfarfod Rhagarweiniol wedi'i atodi at y llythyr Rheol 6 hwn yn **Atodiad A**. Mae'n bwysig cael y llythyr a'r agenda o'ch blaen a chyfeirio atynt yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol. Os ydych chi'n cyfranogi'n rhithwir ac nad ydynt yn brofiadol gyda fideo-gynadledda, efallai y byddwch yn dymuno argraffu'r rhain cyn y Cyfarfod Rhagarweiniol er mwyn cyfeirio atynt.

Canllawiau a pholisi'r Llywodraeth

Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) o dan Ddeddf Cynllunio 2008 (PA2008) yn rhinwedd ei fod yn gais ar gyfer adeiladu gorsaf gynhyrchu tyrbinau gwynt alltraeth yng Nghymru a fyddai â chapasiti cynhyrchu mwy na 350 megawat ac yn dod o fewn cwmpas adran 15 PA2008 felly, gan gynnwys adran 15 (3B).

Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) dynodedig ar gyfer Seilwaith ynni (yn benodol, y Datganiad Polisi Cenedlaethol Cyffredinol ar gyfer Ynni (EN-1), Seilwaith Ynni Adnewyddadwy (EN-3); a Seilwaith Rhwydwaith Trydan (EN-5)) yn gymwys i'r Archwiliad hwn ac i benderfyniadau'n ymwneud â'r cais hwn.

Bydd yr Awdurdod Archwilio'n ystyried y Datblygiad Arfaethedig yn unol â'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ac unrhyw bolisi neu ystyriaethau cymwys eraill y gall yr Awdurdod Archwilio ystyried eu bod yn bwysig a pherthnasol. Mae PA2008 yn dweud yn glir, wrth wneud penderfyniadau, bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol "benderfynu'r cais yn unol ag unrhyw Ddatganiad Polisi Cenedlaethol perthnasol" (a104(3)), yn ddarostyngedig i amodau penodol. Yn ei hanfod, yr amodau yw na ddylai'r cais dorri rhwymedigaethau cyfreithiol na rhwymedigaethau cytuniad, ac na fyddai unrhyw effaith niweidiol y Datblygiad Arfaethedig yn gorbwyso ei fuddion.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol yr hawl i ddiystyru unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â rhinweddau'r Datganiad Polisi Cenedlaethol dynodedig. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na fydd yr Awdurdod Archwilio yn treulio amser yn archwilio sylwadau sy'n herio polisi a bennir mewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol, neu ddilysrwydd y Datganiadau eu hunain. Bydd y ffocws ar rinweddau'r Datblygiad Arfaethedig neu bryderon ynglŷn â'r Datblygiad Arfaethedig, wedi'u profi i'r raddfa briodol gan ddefnyddio profion wedi'u pennu mewn Datganiadau Polisi Cenedlaethol dynodedig perthnasol sydd mewn grym.

Mae materion pwysig a pherthnasol eraill y gall yr Awdurdod Archwilio eu hystyried yn cynnwys polisiâu yng nghynlluniau datblygu'r awdurdodau lleol perthnasol. Fodd bynnag, os yw'r rhain yn gwrthdaro â pholisi mewn Datganiad Polisi Cenedlaethol, yna'r Datganiad Polisi Cenedlaethol fydd drechaf.

Yn gryno, bydd y Cyfarfod Rhagarweiniol yn pennu'r gweithdrefnau a'r amserlen ar gyfer yr Archwiliad o'r Datblygiad Arfaethedig. Bydd yn gosod fframwaith ar gyfer yr Awdurdod Archwilio i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ystyried a phenderfynu'r cais, drwy nodi polisi perthnasol ac archwilio'r cais yng ngoleuni'r polisi hwnnw.

Wrth wneud hynny, bydd yr Awdurdod Archwilio'n rhoi ystyriaeth i:

- Safbwyntiau a sylwadau'r holl Bartïon â Buddiant;
- unrhyw Adroddiadau ar yr Effaith Leol (LIR) a baratowyd ac a ddarparwyd gan awdurdodau lleol perthnasol;
- materion rhagnodedig eraill; ac
- unrhyw faterion eraill yr ymddengys eu bod yn bwysig ac yn berthnasol i benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.

Gwahoddedigion i'r Cyfarfod Rhagarweiniol

Gwahoddir yr Ymgeisydd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ac yn gyffredinol rhoddir y cyfle iddo ateb unrhyw sylwadau a wneir, naill ai ar lafar ar y pryd neu'n ysgrifenedig ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.

Mae pawb sydd wedi gwneud Sylw Perthnasol wedi'u cofrestru fel Parti â Buddiant ac anfonwyd copi o'r llythyr Rheol 6 hwn atynt. Mae gan bob Parti â Buddiant hawl i gymryd rhan yn yr Archwiliad hwn.

Mae pob unigolyn neu sefydliad â buddiant mewn tir neu hawliau yr effeithir arnynt gan gais Caffaeliad Gorfodol / Meddiant Dros Dro yn y cais hwn yn Unigolion yr Effeithir Arnynt (APs). Yn ychwanegol at hawl gyffredinol i fod yn rhan o'r Archwiliad, mae gan Unigolion yr Effeithir Arnynt hawl i gael eu clywed mewn perthynas ag unrhyw wrthwynebiad ynglŷn ag effeithiau Caffaeliad Gorfodol / Meddiant Dros Dro ar eu buddiannau mewn tir, a hawl i ofyn am Wrandawriad Caffaeliad Gorfodol a chael eu gwranddo ynddo. Mae Unigolion yr Effeithir Arnynt yn Bartïon â Buddiant, p'un a ydynt wedi gwneud Sylw Perthnasol neu beidio.

Mae rhai cyrff yn Bartïon Statudol. Gall Partïon Statudol ethol i ddod yn Bartïon â Buddiant heb fod wedi gwneud Sylw Perthnasol.

Mae'r pŵer gan yr Awdurdod Archwilio i gynnwys pobl nad ydynt yn Bartïon â Buddiant yn yr Archwiliad fel pe baent yn Bartïon â Buddiant, gan gynnwys eu gwahodd i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Fodd bynnag, dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, pe bai'n eglur y byddai'r cais yn effeithio'n sylweddol ar unigolyn, nid yw'n gymwys yn awtomatig i ethol dod yn Parti â Buddiant ac nid oedd wedi gallu cymryd y camau angenrheidiol i gofrestru fel Parti â Buddiant.

Gallwch chi gofrestru eich presenoldeb drwy ddefnyddio'r ffurflen hon:

<https://forms.office.com/r/fvkKP2CyJ7>

O dan Adran 88(3) o'r PA2008 a Rheol 6(1) o Reolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Arholiadau) 2010 (EPR), gall yr ExA wahodd personau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol i'r Cyfarfod Rhagarweiniol (PM). Bydd unrhyw berson sy'n cael gwahoddiad i'r PM fel hyn hefyd yn cael ei anfon, at ddibenion gwybodaeth,

llythyr Rheol 8 sy'n cadarnhau amserlen yr arholiad. Byddant hefyd yn cael eu hanfon at unrhyw welliannau i'r amserlen honno o dan Reol 8(3) yr EPR.

Mae'r ExA wedi defnyddio eu disgrisiwn i wahodd y personau eraill canlynol:

- Janet Finch-Saunders MS
- Iwerddon
- Ffrainc
- Natural England
- NatureScot
- DAERA

Cynnal y Cyfarfod Rhagarweiniol

Mae profiad blaenorol yn awgrymu y gallai Cyfarfod Rhagarweiniol ar gyfer prosiect o'r maint a'r cymhlethdod hwn gymryd rhai oriau i'w gwblhau. Fodd bynnag, wrth gynnal y digwyddiad yn rhannol rithwir, mae cyfyngiadau ar nifer y bobl a all siarad ar unrhyw un adeg. Yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol, gall fod rhaid i gyfranogwyr fod yn ystyriol a bod yn amyneddgar os oes oedi yn gysylltiedig â'r dechnoleg a ddefnyddir. I gydnabod y gorflinder sy'n gysylltiedig â chyfathrebu ar-sgrin, bydd yr Awdurdod Archwilio'n darparu egwylliau yn ystod y Cyfarfod Rhagarweiniol fel y bo'n briodol. I'r rheiny sy'n cofrestru ymlaen llaw i gymryd rhan, bydd eich cyfarwyddiadau ymuno yn rhoi mwy o wybodaeth am hyn.

Trefnir bod recordiad digidol ar gael ar dudalen y prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn dilyn y Cyfarfod Rhagarweiniol. Mae'r recordiad digidol yn galluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd â buddiant yn y cais a'r Archwiliad i ganfod beth sydd wedi'i drafod yn y Cyfarfod Rhagarweiniol, p'un a oeddent yn gallu mynychu neu arsylwi'r cyfarfod neu beidio. Mae gwneud a chyhoeddi'r recordiadau hyn yn fodd i ni fodloni'r gofyniad cyfreithiol i gynnal y digwyddiadau hyn yn gyhoeddus. Yn hyn o beth, bydd angen i unrhyw un sy'n siarad yn y Cyfarfod Rhagarweiniol i gyflwyno'u hunain bob tro y siaradant, er mwyn sicrhau bod rhywun sy'n gwrandao ar y recordiad ar ôl y digwyddiad yn glir ynghylch pwy oedd yn siarad. Bydd nodyn ysgrifenedig o'r Cyfarfod Rhagarweiniol yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Cyfarfod Rhagarweiniol ddod i ben.

Gan fod y recordiadau digidol yn cael eu cadw a'u cyhoeddi, maent yn ffurfio cofnod cyhoeddus a all gynnwys gwybodaeth bersonol y mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) y DU yn gymwys iddi. Mae'n rhaid i gyfranogwyr wneud eu gorau i osgoi cyhoeddi unrhyw wybodaeth y byddent fel arall yn dymuno'i chadw yn breifat a chyfrinachol. Os oes angen cyfeirio at wybodaeth o'r fath, dylai fod ar ffurf ysgrifenedig. Er y bydd hwn yn cael ei gyhoeddi hefyd, gall cynnwys personol a phreifat gael ei olygu neu'u dynnu cyn ei wneud ar gael i'r cyhoedd. Dylai unrhyw un sy'n aneglur ar y pwynt hwn ofyn i'r Tîm Achos am arweiniad cyn eu bod yn cynnwys gwybodaeth bersonol a phreifat mewn unrhyw gyflwyniadau.

Arfer yr Arolygiaeth Gynllunio yw cyhoeddi'r recordiadau a'u cadw am gyfnod o bum mlynedd o benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO). Os ydych chi'n cyfranogi'n weithgar yn y Cyfarfod Rhagarweiniol, mae'n

bwysig eich bod yn deall y byddwch yn cael eich recordio ac y bydd y recordiad ar gael i'r cyhoedd. Gweler ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#) am fwy o wybodaeth am y modd rydym yn ymdrin â'ch data.

Yn dilyn cyflwyniadau'r Awdurdod Archwilio, gofynnir i bob cyfranogwyr sydd wedi'u cofrestru i siarad i gyflwyno'u hunain, gan gynnwys unrhyw sefydliadau neu grwpiau y maent yn eu cynrychioli. Yna bydd yr Awdurdod Archwilio yn cynnal y cyfarfod yn unol â'r agenda. Os yw'n well gennych i beidio â recordio'r llun ohonoch, gallwch ddiffodd eich camera ar unrhyw adeg.

Proses yr Archwiliad

Mae'r archwiliad o Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn dilyn prosesau gwahanol i'r rheiny, er enghraifft, mewn Ymchwiliad Cyhoeddus i apêl gynllunio ar ôl gwrthod rhoi caniatâd cynllunio. Y prif wahaniaeth yw bod yr archwiliad o Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol yn broses ysgrifenedig yn bennaf, ac mae ymagwedd chwilgar i wrandawiadau yn hytrach nag ymagwedd wrthwynebol. Golyga hyn y bydd yr Awdurdod Archwilio yn holi, profi ac yn asesu'r wybodaeth gan ddefnyddio cwestiynau ysgrifenedig yn bennaf. Er y cynhelir rhai gwrandawiadau i roi tystiolaeth ategol, daw cwestiynau i'r Ymgeisydd neu i bartïon â buddiant a thystion gan yr Awdurdod Archwilio. Yn gyffredinol, ni chaniateir cwestiynu neu groesholi partïon â buddiant a thystion gan bartïon eraill.

O ran cyfleoedd i ddarparu tystiolaeth yn ysgrifenedig, mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn gwneud darpariaeth ar gyfer y prosesau ysgrifenedig canlynol:

- Gall awdurdodau lleol gyflwyno Adroddiadau ar yr Effaith Leol os dymunant. Er bod y rhain yn wirfoddol, mae'r PA2008 yn amodi, os cânt eu darparu, bod rhaid iddynt gael eu hystyried gan yr Ysgrifennydd Gwladol wrth wneud penderfyniad. O ganlyniad, mae Adroddiadau ar yr Effaith Leol yn ddull pwysig iawn i awdurdodau lleol i gyfleu materion sy'n peri pryder i'r Awdurdod Archwilio, yr Ysgrifennydd Gwladol a'u trigolion eu hunain.
- Gall Partïon â Buddiant wneud Sylwadau Ysgrifenedig a gwneud sylwadau ar Sylwadau Ysgrifenedig a wneir gan bartïon eraill.
- Gall Partïon â Buddiant ymateb i gwestiynau ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio a gwneud sylwadau ar ymatebion i'r cwestiynau ysgrifenedig hyn a ddarperir gan eraill.
- Efallai y gofynnir i Bartïon â Buddiant gyfrannu at wneud y Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) os yw'n ymddangos bod materion y maen nhw a'r Ymgeisydd yn cytuno arnynt, a phe byddai'n ddefnyddiol rhoi gwedd gliriach ar hyn. Mae Datganiadau Tir Cyffredin yn ymestyn yn fwyaf defnyddiol i gatalogio materion nad ydynt wedi'u cytuno neu sy'n parhau heb eu cytuno.

Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys cyfres o derfynau amser wedi'u rhifo ar gyfer derbyn cyflwyniadau ysgrifenedig. Nodwch, oni phennwyd fel arall, bod yr holl derfynau amser yn Amserlen ddrafft yr Archwiliad ac fel y cyfeirir atynt yn y llythyr hwn am **23:59** ar ddiwrnod y terfyn amser. Bydd cyflwyniadau amserol a dderbynnir erbyn y terfyn amser perthnasol ac sy'n mynd i'r afael â'i ddiben yn cael eu derbyn. Bydd dogfennau a dderbynnir ar ôl y terfyn amser perthnasol ond yn cael eu derbyn ar

ddisgresiwn yr Awdurdod Archwilio, ac efallai na chânt eu derbyn er mwyn sicrhau tegwch i'r holl bartïon. Gall amgylchiadau lle mae dogfennau'n cael eu cyflwyno'n hwyr heb reswm da, gan achosi anghyfleustra neu oedi i bartïon eraill, fod yn gyfystyr ag ymddygiad afresymol.

Y prosesau ysgrifenedig hyn fydd y prif fodd a ddefnyddir gan yr Awdurdod Archwilio i gasglu gwybodaeth, tystiolaeth a barnau ynglŷn â'r cais. Fodd bynnag, bydd yr Archwiliad ond yn effeithiol os bydd yr holl bartïon yn penderfynu rhoi atebion amserol, llawn, didwyll ac y seiliedig ar dystiolaeth i bob cwestiwn sy'n berthnasol i'w buddiannau, ac ymgysylltu'n llawn ag unrhyw brosesau cysylltiedig eraill, fel cwblhau Sylwadau Ysgrifenedig a Datganiadau Tir Cyffredin.

Nid oes unrhyw rinwedd i ddal gwybodaeth yn ôl neu oedi gwybodaeth, neu i fethu cydweithredu, a phe bai'n digwydd, gallai unrhyw ymddygiad afresymol a achosodd i barti arall fynd i wariant gwastraffus arwain at ddyfarnu costau yn erbyn y parti tramgwyddus: [Dyfarnu costau: archwiliadau o geisiadau am orchmynion caniatâd datblygu](#).

Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddisgresiwn i wneud diwygiadau i Amserlen yr Archwiliad er budd ehangach yr Archwiliad. Os oes modd, bydd digwyddiadau'n cael eu trefnu ar gyfer amserau pan fo'r holl bartïon perthnasol ar gael, ond mae dyletswydd ar yr Awdurdod Archwilio i gwblhau'r Archwiliad erbyn diwedd y cyfnod chwe mis yn dechrau'r diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Pennir y gofyniad hwn gan ddeddfwriaeth, ac er y bydd yr Awdurdod Archwilio yn ceisio aildrefnu dyddiadau digwyddiadau i ddarparu ar gyfer yr holl bartïon perthnasol, yn ymarferol, ychydig o le sydd i newid dyddiadau a bennwyd yn Amserlen ddrafft yr Archwiliad.

Mae'r terfyn amser statudol ar gyfer yr Archwiliad yn golygu bod materion y mae angen trafod a'u cytuno o hyd rhwng yr Ymgeisydd a Phartïon â Buddiant, a bydd o gymorth mawr i'r Awdurdod Archwilio pe gellid bwrw ymlaen â'r rhain mor gynnar ag y bo modd.

Gwrandawiadau

Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwrandawiadau, lle mae'r Awdurdod Archwilio yn cymryd tystiolaeth lafar gan y partïon amrywiol. Gall unrhyw Barti â Buddiant ofyn am Wrandawriad Llawr Agored i wneud sylwadau llafar ynglŷn â'r cais os credant fod hyn yn well na dibynnu ar eu sylwadau ysgrifenedig, er bod yr un pwys i'r ddau. Dylai cyflwyniadau llafar fod yn seiliedig ar sylwadau a wnaed yn flaenorol yn ysgrifenedig, ond ni ddylent ailadrodd materion yn unig yr ymdriniwyd â nhw'n flaenorol yn y cyflwyniad ysgrifenedig. Yn hytrach, dylent ganolbwyntio ar fanylion penodol ac eglurhad i helpu hysbysu'r Awdurdod Archwilio. Ni ddylai fod unrhyw ddeunydd newydd neu annisgwyl mewn sylwadau llafar. Gofynnir am nodyn cryno ysgrifenedig gydag unrhyw dystiolaeth neu gyfeiriadau ategol gan bob siaradwr yn dilyn y gwrandawriad.

Gyda phob digwyddiad Archwiliad, mae Gwrandawiadau Llawr Agored yn destun pwerau rheoli'r Awdurdod Archwilio fel yr amlinellir yn PA2008 a deddfwriaeth ategol. Mae'n rhaid i gyfranogwyr gofrestru ymlaen llaw erbyn y terfyn amser a ddangosir yn Amserlen yr Archwiliad ac yn unol â'r cyfarwyddiadau, gellir cylchredeg agenda. Mae'n arfer gyffredin i'r Awdurdod Archwilio bennu cyfyngiad amser i bob siaradwr, a gofynnir

i siaradwyr sydd â phwyntiau cyffredin ddod at ei gilydd i enwebu un llefarydd neu siaradwyr cynrychioliadol i ymdrin â thestunau penodol, er mwyn osgoi ailadrodd. Fel arfer, darperir lwfans amser ychwanegol i siaradwyr sy'n cynrychioli awdurdodau cyhoeddus, sefydliadau cymunedol a sefydliadau aelodaeth, neu amryfal Bartion â Buddiant, gan gydnabod eu rôl gynrychioliadol.

Mae Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) yr Ymgeisydd yn darparu ar gyfer caffael tir a hawliau'n orfodol, a meddiannu tir dros dro. Mae gan Unigolion yr Effeithir Arnynt (h.y. yr effeithir ar eu tir neu'u hawliau dros dir) hawl i ofyn am gael eu gwrando, a chael eu gwrando mewn Gwrandawriad Caffaeliad Gorfodol (CAH). Os oes un neu fwy o Unigolion yr Effeithir Arnynt yn gofyn am gael eu gwrando, yna rhaid cynnal Gwrandawriad Caffaeliad Gorfodol. Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys terfyn amser i Unigolion yr Effeithir Arnynt wneud cais i gael eu gwrando mewn Gwrandawriad Caffaeliad Gorfodol.

Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddisgresiwn i gynnal Gwrandawriadau Mater Penodol (ISHs) pe bai'n helpu yn yr Archwiliad, a bod rheswm penodol y byddai hyn yn fwy o gymorth na dibynnu ar dystiolaeth ysgrifenedig yn unig. Nid yw diffyg Gwrandawriad Mater Penodol ar un neu fwy o bynciau yn awgrymu bod y pwnc hwnnw'n llai pwysig na rhai eraill sy'n destun gwrandawriad. Yn hytrach, mae'n dangos bod yr Awdurdod Archwilio'n fodlon y gellir ystyried y materion yn llawn trwy gyflwyniadau ysgrifenedig ac ymatebion i'w gwestiynau ysgrifenedig, a bod pob parti wedi cael cyfle teg i roi ei ddadl gerbron.

Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys nifer o faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer Gwrandawriadau Mater Penodol a gall Partion â Buddiant wneud awgrymiadau ar gyfer testunau yn eu sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Gall fod yn angenrheidiol i'r Awdurdod Archwilio gynnal mwy nag un Gwrandawriad Mater Penodol ar y dDCO. Mae hwn yn arfer arferol, ac fe'u cynhelir ar sail ddiragfarn. Gall partion awgrymu addasiadau a diwygiadau i'r dDCO a ddarparwyd gyda'r cais Datblygu Arfaethedig gan yr Ymgeisydd, heb niweidio'u sefyllfa gyffredinol ar y cais.

Nid yw cynnal y cyfryw wrandawriadau'n ymhlygu bod yr Awdurdod Archwilio wedi llunio unrhyw farnau ar rinweddau'r cais. Beth bynnag yw'r argymhelliad yn y pen draw, mae'n rhaid i'r Awdurdod Archwilio wneud yn siŵr bod y dCDO yn addas i'r diben os yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn penderfynu rhoi caniatâd, gan y bydd unrhyw ganiatâd yn ddarostyngedig i ofynion (sy'n debyg i amodau cynllunio) a amlinellir yn y DCO.

Mewn gwrandawriadau, ni fydd yn angenrheidiol fel arfer i bartion wneud cyflwyniadau hir a manwl sy'n mynnu (er enghraifft) cyflwyniadau PowerPoint. Gall unrhyw fanylion / gwybodaeth ategol gael eu darparu'n ysgrifenedig ar ôl y digwyddiad erbyn y terfyn amser perthnasol.

Archwiliadau safle

Fel rhan o broses yr Archwiliad, mae'r Awdurdod Archwilio'n ymgymryd ag archwiliadau safle. Diben y rhain yw i'r Awdurdod Archwilio weld nodweddion y cynnig yng nghyd-destun y dystiolaeth a roddwyd gerbron. Gall archwiliadau safle fod gyda chwmni neu heb gwmni. O 27 i 29 Mehefin 2022, ymgymerodd yr Awdurdod Archwilio

Archwiliad Safle Heb Gwmni (USI) i ymgysfarwyddo'u hunain â'r ardal gyffredinol lle mae'r cais wedi'i leoli. Mae nodyn o'r Archwiliad Safle Heb Gwmni (USI1) ar gael ar wefan y prosiect [[EV-001](#), [EV-002](#)]. Cynhaliwyd Archwiliad Safle Heb Gwmni arall (USI2) rhwng 1 a 4 Awst 2022; mae nodyn o'r Archwiliad hwn ar gael ar wefan y prosiect hefyd [[EV-003](#), [EV-004](#)].

Bydd Archwiliadau Safle â Chwmni (ASI) ond yn angenrheidiol i edrych ar dir lle nad oes unrhyw hawl mynediad cyhoeddus, neu lle nad oes golygfa glir o leoliadau cyfagos â mynediad cyhoeddus agored. Diben yr Archwiliadau Safle â Chwmni yw ymgysfarwyddo'n unig ac ni fydd unrhyw drafodaeth am rinweddau'r Datblygiad Arfaethedig yn ystod Archwiliad Safle â Chwmni.

Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn cynnwys terfyn amser i Bartion â Buddiant wneud cyflwyniadau yn awgrymu safleoedd a lleoliadau y dylai'r Awdurdod Archwilio ymweld â nhw, mewn ymateb i amserlen deithio a awgrymwyd gan yr Ymgeisydd. Bydd y rhain yn cael eu defnyddio i lywio Archwiliadau Safle Heb Gwmni pellach yn ogystal ag Archwiliadau Safle â Chwmni posibl. Nid ystyrir ei bod yn angenrheidiol yn gyffredinol i ail-ymweld â safleoedd mewn Archwiliadau Safle â Chwmni yr ymwelwyd â nhw'n barod mewn Archwiliad Safle Heb Gwmni.

Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion

Dyma'r Asesiad Cychwynnol o'r Prif Faterion (IAPI) a baratowyd o dan a88(1) Deddf Cynllunio 2008 (PA2008). Mae wedi'i baratoi gan Awdurdod Archwilio ar ôl iddo ddarllen y canlynol:

- dogfennau'r cais
- y Sylwadau Perthnasol a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r cais; a'i
- ystyriaeth o unrhyw faterion pwysig a perthnasol eraill.

Nid yw'n rhestr gynhwysfawr na chyfyngedig o'r materion a fydd yn destun archwiliad, ac yn anochel, bydd rhai materion yn gorgyffwrdd neu'n cydberthyn. Bydd yr Awdurdod Archwilio'n ystyried yr holl faterion pwysig a pherthnasol yn ystod yr Archwiliad, a phan fydd yn ysgrifennu'i Adroddiad Argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Busnes Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ar ôl i'r Archwiliad ddod i ben. Bydd yr holl faterion yn cael eu hystyried yn ystod y camau arfaethedig adeiladu, gweithredu a datgomisiynu, lle bo'n berthnasol.

Mae trefn y materion a restrwyd yn dilyn y wyddor, ac nid yw'n ymhlygu unrhyw drefn blaenoriaeth na phwysigrwydd. Mae'r eitemau ar ffurf pwyntiau bwled o dan bob mater yn ddangosol ac nid ydynt yn atal is-eitemau eraill rhag cael eu hystyried.

Mae'r polisi a gofynion caniatâd a'r dogfennau sy'n gysylltiedig â Deddf Cynllunio 2008 yn rhan annatod o'r Archwiliad ac felly ni chânt eu rhestru fel prif faterion. Dylid nodi hefyd, er nad yw effeithiau'r cynnig mewn perthynas â dyletswyddau hawliau dynol a chydaddoldebau wedi'u rhestru fel prif eitemau, bydd yr Awdurdod Archwilio'n cynnal pob agwedd ar yr Archwiliad gan roi ystyriaeth i'r rhain.

1. Hedfanaeth

- Effeithiau posibl ar radar a gweithrediadau hedfan Sifil a'r Weinyddiaeth Amddiffyn
- Digonolrwydd a diogelwch mesurau lliniaru arfaethedig
- Cynigion a digonolrwydd goleuadau

2. Bioamrywiaeth, Ecoleg a'r Amgylchedd Naturiol

- Effeithiau posibl ar rywogaethau a chynefinoedd yn yr amgylchedd morol a'r tir, gan gynnwys rhywogaethau a warchodir.
- Goblygiadau ar gyfer integredd safleoedd dynodedig.
- Effeithiau cronol posibl ac effeithiau mewn cyfuniad.
- Digonolrwydd data sylfaenol gan gynnwys cadernid arolygon a methodoleg casglu data.
- Digonolrwydd a diogelwch mesurau lliniaru.
- Digonolrwydd a diogelwch ymrwymadau monitro, gan gynnwys ymagwedd cynnal a chadw.
- Elw net bioamrywiaeth.

3. Caffaeliad Gorfodol (CA) a Meddiant Dros Dro (TP)

- Yr angen i'r tir a hawliau fod yn destun Caffaeliad Gorfodol / Meddiant Dros Dro
- Tir, hawliau a phwerau a geisir
- Lleihau'r angen am dir a hawliau
- Effeithiau ar y rheiny yr effeithir arnynt gan Gaffaeliad Gorfodol / Meddiant Dros Dro
- Safbwynt, ac effeithiau ar Ymgwymerwyr Statudol, darpariaethau a warchodir a ph'un a fyddai profion a127 ac a138 o PA2008 yn cael eu bodloni
- Y sefyllfa mewn perthynas â thir y Goron
- Yr ymagwedd at dir categori arbennig
- Digonolrwydd a diogelwch cyllid ar gyfer iawndal
- Cywirdeb y Llyfr Cyfeirnodau
- Datganiad o Resymau a chyfiawnhad dros y pwerau a geisir
- P'un a yw dewisiadau amgen rhesymol wedi'u harchwilio'n ddigonol
- Ystyriaethau hawliau dynol
- P'un a oes achos cadarn er budd y cyhoedd wedi'i sefydlu
- P'un a yw'r cynigion yn bodloni gofynion PA2008 ym mhob agwedd arall

4. Adeiladu

- Cyfnodau adeiladu ac amserlen
- Safleoedd gwaith dros dro a storfa
- Gwastraff (ar y tir) a rheoli tir halogedig
- Gosod ceblau, a gosod sylfeini
- Oriau gweithio
- Rhywogaethau Estron Goresgynnol (ar y môr ac ar y tir)
- Digonolrwydd trefniadau rheoli a monitro

5. Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft (dDCO)

- Digonolrwydd y Memorandwm Esboniadol
- Diffiniadau perthnasol a'u heglurder / cysondeb
- Strwythur y dDCO
- Hyblygrwydd Dylunio a chyfiawnhad
- Priodoldeb a digonolrwydd gofynion arfaethedig, a ph'un a fyddent yn sicrhau lliniaru'n effeithiol, ynghyd ag unrhyw ddarpariaethau monitro
- P'un a yw unrhyw ofynion ychwanegol yn angenrheidiol
- Y berthynas â'r Drwydded Forol a chaniatadau / hawlenni / trwyddedau eraill (gan gynnwys cymeradwyaethau rheoleiddio a thrwyddedau amgylcheddol)
- Cymhwysu ac addasu darpariaethau deddfwriaethol
- Cyflawni trefniadau ar gyfer materion y mae angen cael cymeradwyaeth fanwl ar eu cyfer, gan gynnwys ymgynghori a chyflafareddu
- Nodi'r holl ymgwymerwyr statudol perthnasol y mae darpariaethau diogelu yn ofynnol ar eu cyfer, a digonolrwydd a chytuno'r darpariaethau hynny
- Darpariaethau eraill yn y dDCO, gan gynnwys ar gyfer dileu gofynion caniatâd, Caffaeliad Gorfodol a dogfennau i'w hardystio

6. Perygl Llifogydd ac Ansawdd Dŵr

- Perygl llifogydd yn cynnwys draeniad safle a llifogydd dŵr wyneb, a hydroddaeareg
- Unrhyw effeithiau perygl llifogydd posibl eraill
- Digonolrwydd data sylfaenol gan gynnwys cadernid arolygon a methodoleg casglu data
- Maint y dalgylch, cywirdeb modelu, lwfansau newid hinsawdd ac unrhyw ragdybiaethau a wnaed
- Effeithiau ar gyflenwad dŵr yfadwy a dŵr anyfadwy yn ystod adeiladu a gweithredu
- Cydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro

7. Dyluniad Da

- P'un a yw'r cynnig, fel cyfanrwydd ac yn rhannol, yn arddangos dyluniad da
- Egwyddorion dylunio

8.Yr Amgylchedd Hanesyddol

- Effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol ar y tir, gan gynnwys archaeoleg a lleoliad asedau dynodedig (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i adeiladau rhestredig a safleoedd treftadaeth y byd)
- Effeithiau ar yr amgylchedd hanesyddol rhynglanwol ac alltraeth
- Ymchwilio, monitro a goruchwylio archaeolegol yn y dyfodol
- Digonolrwydd arolygon archaeolegol a gynhaliwyd (gan gynnwys dehongli canlyniadau arolygon)
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro

9. Defnydd Tir

- Effeithiau ar dir amaethyddol a gweithrediadau ffermio
- Effeithiau ar ansawdd pridd
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro

10. Morwedd, Tirwedd a Gweledol (yn ymwneud â'r arae alltraeth a'r ceblau ac is-orsaf ar y tir)

- Digonolrwydd methodoleg ac ymagwedd asesu, gan gynnwys maint ardaloedd astudio
- Yr ymagwedd at asesiadau o'r effaith ar y morwedd, tirwedd ac effaith weledol
- Gwybodaeth sylfaenol
- Digonolrwydd lleoliadau golygfannau
- Cywirdeb ffotogyfosodiadau
- Yr effeithiau ar gymeriad y morwedd
- Yr effeithiau ar gymeriad y dirwedd a dynodiadau tirwedd
- Effaith ar nodweddion tirwedd gan gynnwys coed a gwrychoedd
- Effeithiau gweledol

- Effeithiau goleuadau artiffisial
- Dyluniad y Datblygiad Arfaethedig
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro
- Rheoli a chynnal a chadw'r dirwedd, ac ystyriaeth o'r Cynllun Rheoli Tirwedd ac Ecoleg amlinellol

11. Prosesau Ffisegol Morol ac Arfordirol

- Sgwrio a gosod deunyddiau i atal erydu
- Ansawdd dŵr y môr a gwaddod
- Effeithiau ar leoliad glanfa ac effeithiau ar yr arfordir
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro

12. Morol – Masnachol

- Effeithiau ar forgludiant a mordwyaeth.
- Effeithiau ar bysgodfeydd a physgota.
- Effeithiau trawsffiniol.
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro

13. Morol – Naturiol

- Effeithiau ar rywogaethau a chynefinoedd benthig, pysgod a physgod cregyn
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro

14. Iechyd y Cyhoedd a niwsans

- Effeithiau ar ansawdd yr aer yn ystod adeiladu
- Llygredd sŵn ac effeithiau dirgryniad
- Llygredd golau
- Meysydd Trydanol a Magnetig
- Effeithiau ar iechyd pobl
- Amwynder preswyl
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro

15. Prosiectau a chynigion eraill

- Effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar brif brosiectau adeiledig ac arfaethedig eraill gerllaw, gan gynnwys ffermydd gwynt alltraeth
- Effeithiau cronol ac effeithiau mewn cyfuniad gyda phrosiectau a chynigion mawr eraill

16. Disgrifiad o'r prosiect a dewis safle

- Natur y Datblygiad Arfaethedig o ran 'amlen Rochdale'
- Asesiad o ddewisiadau amgen
- Angen am y datblygiad ac effeithiau newid hinsawdd
- Cydymffurfio, neu fel arall, â Datganiadau Polisi Cenedlaethol perthnasol, cynlluniau datblygu a pholisïau eraill

17. Economeg-gymdeithasol

- Methodoleg asesu sylfaenol a'r gwerthusiad economaidd-gymdeithasol
- Effeithiau ar fusnesau lleol o ran effeithiau'r Datblygiad Arfaethedig ar y morwedd, tirwedd ac effeithiau gweledol, ar y tir ac ar y môr, yn ystod adeiladu a gweithredu
- Cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, gan gynnwys monitro a chipio data
- Buddion cymunedol
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro

18. Twristiaeth a Hamdden

- Methodoleg asesu sylfaenol a gwerthusiad o dwristiaeth
- Effeithiau ar weithgareddau twristiaeth a hamdden o ran effeithiau posibl y Datblygiad Arfaethedig ar y dirwedd, morwedd ac effeithiau gweledol, ar y tir ac ar y môr, yn ystod adeiladu a gweithredu
- P'un a yw'r cynlluniau'n briodol i leihau tarfu i ddefnyddwyr y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ac i leihau effeithiau ar y gymuned leol a thwristiaeth.
- Cyfleoedd twristiaeth a hamdden
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro

19. Traffig a Thrafnidiaeth

- Cynhyrchu traffig, rheoli traffig a diogelwch ar y ffordd
- Effeithiau ar y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus gan gynnwys dargyfeirio dros dro a pharhaol a / neu gau
- Dull modelu traffig ac effeithiau ar rwydweithiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Effeithiau datblygiadau eraill ar y dull modelu traffig
- Diogelwch ar y ffordd a diogelwch cerddwyr
- Digonolrwydd mesurau lliniaru a monitro

Amserlen Ddrafft yr Archwiliad

Mae dyletswydd ar yr Awdurdod Archwilio i gwblhau'r archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod chwe mis yn dechrau ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol. Sylwer y gall yr Awdurdod Archwilio gau'r Archwiliad cyn diwedd y cyfnod chwe mis os yw'n fodlon bod yr holl faterion perthnasol wedi'u hystyried a'u trafod.

Mae'r archwiliad o'r cais yn digwydd yn bennaf ar ffurf ystyried cyflwyniadau ysgrifenedig yn bennaf. Hefyd, bydd yr Awdurdod Archwilio'n ystyried unrhyw sylwadau llafar a wnaed mewn gwrandawiadau.

Amserlen Ddrafft Archwiliad Awel y Môr		
Eitem	Materion	Dyddiad Gofynnol
1	<p>Terfyn Amser Gweithdrefnol A</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hysbysiad o ddymuniad i siarad yn y Cyfarfod Rhagarweiniol • Hysbysiad o ddymuniad i siarad yn y Gwrandawriad Llawr Agored • Hysbysiad o ddymuniad i siarad yn y Gwrandawriad Mater Penodol cyntaf ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) • Amserlen deithio arfaethedig yr Ymgeisydd ar gyfer Archwiliad Safle â Chwmni (ASI) 	Gwener 9 Medi 2022
2	Cyfarfod Rhagarweiniol	10:00am Dydd Mawrth 20 Medi 2022
3	Gwrandawriad Mater Penodol 1 ar y dDCO	10:00am Dydd Mercher 21 Medi 2022
4	Gwrandawriad Llawr Agored 1	10:00am Dydd Iau 22 Medi 2022
5	<p>Dosbarthu'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Amserlen yr Archwiliad • Cwestiynau Ysgrifenedig Cyntaf yr Awdurdod Archwilio (ExQ1) 	Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y Cyfarfod Rhagarweiniol

<p>6</p>	<p>Terfyn Amser 1 (D1)</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Crynodebau ysgrifenedig o gyflwyniadau llafar i'r gwrandawiaidau • Unrhyw gyflwyniadau ôl-wrandawriad a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio • Ymatebion i ExQ1 yr Awdurdod Archwilio • dDCO wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Atodlen o Newidiadau i'r dDCO • Sylwadau ar Sylwadau Perthnasol (RRs) • Adroddiad ar yr Effaith Leol (LIR) gan Awdurdodau Lleol • Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) cychwynnol a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio – gweler Atodiad H • Symud ymlaen â Datganiad Cyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin • Sylwadau ar unrhyw ddogfennau cais wedi'u diweddarau • Yr Atodlen Caffaeliad Gorfodol • Llyfr Cyfeirnodau (BoR) wedi'i ddiweddarau ac Atodlen Newidiadau i'r BoR a fersiynau sy'n dangos newidiadau (os oes angen) • Traciwr dogfennau'r cais • Traciwr Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) cychwynnol – gweler Atodiad H • Sylwadau ysgrifenedig (yn cynnwys crynodebau o'r holl sylwadau ysgrifenedig dros 1500 o eiriau) • Unrhyw wybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawriad Llawr Agored • Hysbysiad o ddymuniad i siarad mewn Gwrandawriad Caffaeliad Gorfodol • Sylwadau ac awgrymiadau ar drefniadau ac amserlen deithio ASI drafft yr Ymgeisydd • Hysbysiad gan unrhyw Bartïon Statudol nad ydynt wedi cyflwyno Sylwadau Perthnasol o'u dymuniad i gael eu hystyried yn Barti â Buddiant • Diweddariad yr Ymgeisydd ar gyflwyno'r Drwydded Forol (ML) a chynnydd – gweler Atodiad H 	<p>Dydd Llun 24 Hydref 2022</p>
----------	--	--

<p>7</p>	<p>Terfyn Amser 2 (D2)</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i sylwadau ar Sylwadau Perthnasol • Sylwadau ar ymatebion i ExQ1 yr Awdurdod Archwilio • Sylwadau ar LIRs • Unrhyw wybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 • Sylwadau ar unrhyw dDCO diwygiedig • Atodlen CA wedi'i diweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • BoR wedi'i ddiweddarau ac Atodlen Newidiadau i'r BoR a fersiynau sy'n dangos newidiadau (os oes angen) • dDCO wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Atodlen Newidiadau wedi'i diweddarau i'r dDCO • Traciwr dogfennau diweddaedig y cais mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Traciwr NPS wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Symud ymlaen â Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) • Symud ymlaen â Datganiad Cyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd adeg D1 • Sylwadau ar Sylwadau Ysgrifenedig • Diweddariad ar y Drwydded Forol (ML) (os oes angen) 	<p>Dydd Mercher 9 Tachwedd 2022</p>
<p>8</p>	<p>Terfyn Amser 3 (D3)</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i sylwadau ar LIRs • dDCO wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Atodlen CA wedi'i diweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • BoR wedi'i ddiweddarau ac Atodlen Newidiadau i'r BoR a fersiynau sy'n dangos newidiadau (os oes angen) • Atodlen Newidiadau wedi'i diweddarau i'r dDCO 	<p>Dydd Mercher 23 Tachwedd 2022</p>

	<ul style="list-style-type: none"> • Traciwr dogfennau diweddaedig y cais mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Traciwr NPS wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Unrhyw wybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 • Symud ymlaen â Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) • Symud ymlaen â Datganiad Cyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd adeg D2 • Diweddariad ar y Drwydded Forol (os oes angen) 	
9	<p>Wythnos wedi'i neilltuo ar gyfer gwrandawiaadau ac Archwiliad Safle â Chwmni (ASI):</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwrandawiad(au) Mater Penodol Ychwanegol (os oes angen) • Gwrandawiad(au) Caffaeliad Gorfodol (os oes angen) • Gwrandawiad(au) Llawr Agored Ychwanegol (os oes angen) • Archwiliad Safle a Chwmni (os oes angen) 	w/d 5 Rhagfyr 2022
10	<p>Dosbarthu'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ail Gwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (ExQ2) (os oes angen) 	Dydd Llun 23 Ionawr 2023
11	<p>Terfyn Amser 4 (D4)</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Crynodebau ysgrifenedig o gyflwyniadau llafar yn y gwrandawiaadau • Unrhyw gyflwyniadau ôl-wrandawriad a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio • Atodlen CA wedi'i diweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • BoR wedi'i ddiweddarau ac Atodlen Newidiadau i'r BoR a fersiynau sy'n dangos newidiadau (os oes angen) • dDCO wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau 	Dydd Llun 30 Ionawr 2023

	<ul style="list-style-type: none"> • Atodlen Newidiadau wedi'i diweddarau i'r dDCO • Traciwr dogfennau diweddaedig y cais mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Traciwr NPS wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Unrhyw wybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 • Symud ymlaen â Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) • Symud ymlaen â Datganiad Cyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd adeg D3 • Diweddariad ar y Drwydded Forol (os oes angen) 	
12	<p>Terfyn Amser 5 (D5)</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i ExQ2 • Sylwadau ar unrhyw dDCO diwygiedig • Unrhyw wybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 • Atodlen CA wedi'i diweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • BoR wedi'i ddiweddarau ac Atodlen Newidiadau i'r BoR a fersiynau sy'n dangos newidiadau (os oes angen) • dDCO wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Atodlen Newidiadau wedi'i diweddarau i'r dDCO • Traciwr dogfennau diweddaedig y cais mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Traciwr NPS wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Symud ymlaen â Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) • Symud ymlaen â Datganiad Cyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd adeg D4 • Diweddariad ar y Drwydded Forol (os oes angen) 	<p>Dydd Llun 6 Chwefror 2023</p>
13	<p>Terfyn Amser 6 (D6)</p>	<p>Dydd Llun 20 Chwefror 2023</p>

	<p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sylwadau ar ymatebion i ExQ2 • Atodlen CA wedi'i diweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • BoR wedi'i ddiweddarau ac Atodlen Newidiadau i'r BoR a fersiynau sy'n dangos newidiadau (os oes angen) • dDCO wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Atodlen Newidiadau wedi'i diweddarau i'r dDCO • Traciwr dogfennau diweddaedig y cais mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Traciwr NPS wedi'i ddiweddarau mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Unrhyw wybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 • Symud ymlaen â Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG) • Symud ymlaen â Datganiad Cyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd adeg D5 • Diweddariad ar y Drwydded Forol (os oes angen) 	
14	<p>Cyhoeddi'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Atodlen o newidiadau i'r dDCO yr Awdurdod Archwilio (os oes angen) • Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) (os oes angen) 	Dydd Mercher 22 Chwefror 2023
15	<p>Dosbarthu'r canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trydydd Cwestiynau Ysgrifenedig yr Awdurdod Archwilio (ExQ3) (os oes angen) 	Dydd Mercher 1 Mawrth 2023
16	<p>Wythnos wedi'i neilltuo ar gyfer gwrandawiadau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwrandawriad(au) Mater Penodol (os oes angen) • Gwrandawriad(au) Caffaeliad Gorfodol (os oes angen) 	w/d 6 Mawrth 2023

	<ul style="list-style-type: none"> • Gwrandawriad(au) Llawr Agored Ychwanegol (os oes angen) 	
17	<p>Terfyn Amser 7 (D7)</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymatebion i ExQ3 (os oes angen) 	<p>Dydd Mercher 8 Mawrth 2023</p>
18	<p>Terfyn Amser 8 (D8)</p> <p>Terfyn amser ar gyfer derbyn y canlynol gan yr Awdurdod Archwilio:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Crynodebau ysgrifenedig o gyflwyniadau llafar yn y gwrandawiadau (os oes angen) • Sylwadau ar y RIES (os oes angen) • Sylwadau ar atodlen newidiadau arfaethedig yr Awdurdod Archwilio i'r dDCO (os oes angen) • Datganiad Tir Cyffredin (SoCG) Terfynol • Datganiad Cyffredinedd Terfynol ar gyfer y Datganiad Tir Cyffredin • Atodlen CA Derfynol mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • BoR wedi'i ddiweddarau ac Atodlen Newidiadau i'r BoR a fersiynau sy'n dangos newidiadau (os oes angen) • Traciwr dogfennau terfynol y cais • Fersiwn derfynol ac wedi'i dilysu o'r dDCO mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Atodlen Newidiadau derfynol i'r dDCO • BoR terfynol mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Datganiad o Resymau terfynol mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Traciwr NPS terfynol mewn fersiwn lân a fersiwn sy'n dangos newidiadau • Unrhyw wybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 (os oes angen) • Sylwadau ar unrhyw gyflwyniadau eraill a dderbyniwyd adeg D6 • LIRs wedi'u diweddarau • Cyflwyniadau cloi • Diweddariad terfynol ar y Drwydded Forol • Sylwadau ar ymatebion i ExQ3 (os oes angen) 	<p>Dydd Mercher 15 Mawrth 2023</p>

19	Cau'r Archwiliad <ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw wybodaeth ychwanegol a geisiwyd gan yr Awdurdod Archwilio o dan Reol 17 (os oes angen) 	Dydd Llun 20 Mawrth 2023
----	---	---------------------------------

Sylwer: Os bydd mwy o rowndiau cwestiynau'n angenrheidiol, bydd yr Awdurdod Archwilio'n diwygio'r amserlen trwy lythyr o dan Reol 8(3) Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010.

Amserau cyflwyno ar gyfer terfynau amser

Yr amser ar gyfer cyflwyno dogfennau adeg pob terfyn amser yw 23:59 ar ddyddiad perthnasol y terfyn amser. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn arfer ei ddisgresiwn o ran derbyn dogfennau a ddaw i law ar ôl i'r terfyn amser ddod i ben.

Dyddiadau cyhoeddi

Bydd yr holl wybodaeth a dderbynnir yn cael ei chyhoeddi ar [wefan y prosiect](#) ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y terfynau amser ar gyfer cyflwyniadau.

Agendâu gwrandawiadau

Sylwer y bydd yr Awdurdod Archwilio, ar gyfer Gwrandawiadau Mater Penodol a Gwrandawiadau Caffaeliad Gorfodol, yn cyhoeddi agenda lefel uchel ochr yn ochr â'r hysbysiad o'r gwrandawriad er mwyn helpu llywio'ch penderfyniad ynghylch p'un ai i gofrestru i gyfranogi. Bydd agenda drafft manwl ar gael ar wefan y prosiect ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad. Fodd bynnag, fe allai'r union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawriad newid yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Archwilio. Efallai na chyhoeddir agendâu ar gyfer Gwrandawiadau Llawr Agored.

Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES)

Lle bydd ymgeisydd wedi darparu Adroddiad Dim Effeithiau Arwyddocaol neu Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) gyda'r cais, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio yn penderfynu cyhoeddi Adroddiad ar y Goblygiadau ar gyfer Safleoedd Ewropeaidd (RIES) yn ystod yr Archwiliad. Mae'r RIES yn gyfrif ffeithiol o'r wybodaeth a'r dystiolaeth a ddarparwyd i'r Awdurdod Archwilio ar faterion yn ymwneud â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod yr Archwiliad hyd at ddyddiad cyhoeddi'r RIES, er mwyn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, fel awdurdod cymwys, i ymgymryd â'i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Nid barn yr Awdurdod Archwilio ar faterion yn ymwneud â'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ydyw. Bydd yr Awdurdod Archwilio yn gwahodd sylwadau ar y RIES a bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried fel rhan o Argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol ddibynnu ar y RIES i fodloni ei rwymedigaethau o dan Reoliad 63 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a / neu Reoliad 28 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

Hysbysiad o Wrandawiadau

Cynhelir y Gwrandawriad Mater Penodol cyntaf (ISH1) a'r Gwrandawriad Llawr Agored (OFH1) fel a ganlyn:

Dyddiad	Gwrandawriad	Amser Dechrau	Lleoliad	Mynediad a pharcio
Dydd Mercher 21 Medi 2022	Gwrandawriad Mater Penodol i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) (ISH1)	10.00am Seddau ar gael/ Cynhadledd Trefniadau o: 09:15am	Digwyddiad rhithwir (Microsoft Teams) ac Ystafell y Stiwdio, Venue Cymru, Promenâd, Llandudno LL30 1BB	Ceir gwybodaeth uchod yn Atodiad A.
Dydd Iau 22 Medi 2022	Gwrandawriad Llawr Agored 1 (OFH1)	10.00am Seddau ar gael/ Cynhadledd Trefniadau o: 09:15am	Digwyddiad rhithwir (Microsoft Teams) ac Ystafell Crafnant, Venue Cymru, Promenâd, Llandudno LL30 1BB	Ceir gwybodaeth uchod yn Atodiad A.

Mae gwybodaeth am wrandawiadau wedi'i chynnwys yn [Nodyn Cyngor 8.5: Yr archwiliad: gwrandawiadau ac archwiliadau safle' yr Arolygiaeth Gynllunio.](#)

Os dymunwch fynychu unrhyw rai o'r gwrandawiadau hyn, cysylltwch â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion ar frig y llythyr hwn, heb fod yn hwyrach na Therfyn Amser Gweithdrefnol A, Dydd Gwener 9 Medi 2022, gan ddatgan:

- p'un a ydych yn dymuno siarad yn y gwrandawriad a'r materion y dymunwch wneud sylwadau llafar amdanynt; ac
- ein hysbysu am unrhyw anghenion arbennig a all fod gennych (e.e. mynediad i'r anabl, dolen glywed ac ati).

Bydd seddau ar gael yn y lleoliad 30 munud cyn dechrau'r gwrandawriad er mwyn galluogi dechrau'n brydlon. I'r rheiny sy'n ymuno'n rhithwir, bydd cynhadledd trefniadau yn dechrau ar yr un pryd (9.30am). Bydd y gwrandawriad yn gorffen cyn

gynted ag y bydd yr Awdurdod Archwilio o'r farn fod pawb sy'n bresennol wedi cael dweud eu dweud ac yr ymdriniwyd â'r holl faterion. Gan ddibynnu ar y niferoedd sy'n dymuno siarad yn y gwrandawriad, gall fod yn angenrheidiol i'r Awdurdod Archwilio cyfyngu ar yr amser a ddyrennir i bob siaradwr.

Agendâu gwrandawiadau

Sylwer y bydd yr Awdurdod Archwilio, yn gyffredinol, yn amcanu i gyhoeddi agenda ddrafft fanwl ar gyfer pob Gwrandawriad Mater Penodol ar brosiect y wefan o leiaf bum diwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawriad. Fodd bynnag, fe allai'r union agenda ar ddiwrnod pob gwrandawriad newid yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Archwilio.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Gwrandawriad Mater Penodol (ISH) i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (ISH1) ac ar gyfer y Gwrandawriad Llawr Agored (OFH1) yn **Atodiadau F a G** yn y drefn honno.

Rhagor o wybodaeth am y Gwrandawriad Mater Penodol i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (ISH1)

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer y Gwrandawriad Mater Penodol i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft (dDCO) fel y'i hysbyswyd gan yr Awdurdod Archwilio yn **Atodiad E**.

Dyddiad:	Dydd Mercher 21 Medi 2022
Amser:	10:00am, ystafell yn agor / Cynhadledd Trefniadau o 9:15am
Lleoliad:	Digwyddiad Rhithwir (Microsoft Teams) ac Ystafell y Stiwdio, Venue Cymru, Promenâd, Llandudno LL30 1BB
Mynediad a Pharcio:	Ceir gwybodaeth uchod yn Atodiad A .

Cefndir

Mae'r gwrandawriad cynnar hwn ar y dDCO yn cael ei gynnal i fynd i'r afael â materion, ystyriaethau a chwestiynau a nodwyd gan yr Awdurdod Archwilio yn ystod yr Aseiad Cychwynnol o'r Prif Faterion fel y'u rhestrwyd yn **Atodiad C**. Ni fydd yr Awdurdod Archwilio yn archwilio materion sy'n codi o gynnwys Sylwadau Perthnasol unigol yn y gwrandawriad hwn. Mae'r rhain yn faterion a fydd yn destun ystyriaeth wrth i'r Archwiliad fynd rhagddo, yn ysgrifenedig neu ar lafar fel y bo'r gofyn, ar ôl cyflwyno Sylwadau Ysgrifenedig (WRs).

Mae'r Awdurdod Archwilio o'r farn ei bod yn hwylus i archwilio rhai materion, ystyriaethau a chwestiynau ar lafar ar ddechrau'r Archwiliad er mwyn sicrhau bod materion technegol a chyfreithiol sy'n deillio o'r dDCO yn cael eu nodi a'u hystyried mor gynnar ag y bo modd. Bydd y gwrandawriad hwn, ac unrhyw wrandawriadau dilynol, yn cael eu cynnal heb amharu ar ystyriaeth yr Awdurdod Archwilio o rinweddau cynllunio ehangach y cais.

Gwahoddir yr holl Bartïon â Buddiant i fynychu'r gwrandawriad, ac mae hawl gan bob Parti â Buddiant i wneud sylwadau llafar yn y gwrandawriad.

Byddai'n ddefnyddiol i'r Awdurdod Archwilio pe gallai'r partïon canlynol fynychu a chyfranogi yn ISH1 i'r dDCO:

- Awel y Môr Offshore Wind Farm Limited (yr Ymgeisydd)
- Cyngor Sir Ddinbych (DCC)
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CCBC)
- Cyngor Sir Ynys Môn (IACC)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW)
- North Hoyle Wind Farm Limited

- Rhyl Flats Wind Farm Limited; ac
- Gwahoddir unrhyw Partïon eraill â Buddiant (IPs) – sydd â diddordeb yn nrafftio'r dDCO, gweithredu a chyflawni erthyglau arfaethedig, gofynion a darpariaethau eraill i fynyachu hefyd.

Gall cyfranogwyr gael cynrychiolaeth gyfreithiol os dymunant, ond bydd y gwrandawriad yn cael ei gynnal i sicrhau nad yw cynrychiolaeth gyfreithiol yn ofynnol. Mae arweiniad o dan Ddeddf Gynllunio 2008 (PA2008) a Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 yn amodi mai'r Awdurdod Archwilio fydd yn holi, profi ac yn asesu'r dystiolaeth drwy gwestiynu'n uniongyrchol yr unigolion sy'n gwneud sylwadau llafar mewn gwrandawriadau. Bydd y cwestiynu yn y gwrandawriad yn cael ei arwain gan yr Awdurdod Archwilio.

Bydd agenda fanwl yn cael ei chyhoeddi ar dudalen y prosiect o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y gwrandawriad.

Diben y Gwrandawriad Mater Penodol

Prif ddiben y Gwrandawriad dDCO cyntaf yw ymgymryd ag archwiliad o Erthyglau ac Atodlenni'r dDCO.

Yn benodol, ystyried:

- Materion yn ymwneud â sut y bwriedir i'r dDCO weithio – beth fyddai'n cael ei ganiatáu, graddfa'r pwerau a pha ofynion a chytundebau sy'n arfaethedig;
- Unrhyw faterion posibl o ran atal, lliniaru neu ddigolledu nad yw'r dDCO fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd yn ymdrin â nhw;
- Y cyfiawnhad am unrhyw newidiadau o arfer sefydledig;
- Yr angen am newidiadau i ddarpariaethau deddfwriaethol eraill;
- Yr angen am ddarpariaethau diogelu a'u cwmpas; a
- Barnau cychwynnol Partïon eraill â Buddiant ynghylch priodoldeb, cymesuredd neu effeithlonrwydd y cynigion.

Ni fydd y gwrandawriad hwn yn archwilio cynnwys manwl darpariaethau'n ymwneud â chaffael tir neu eiddo'n orfodol na meddiant dros dro ar dir. Mae amserlen ddrafft yr Archwiliad yn cynnig Gwrandawriadau Caffaeliad Gorfodol ar wahân ar y pynciau hyn, a gellir mynd yn ôl i'w hystyried eto mewn ISHs dilynol y DCO.

Darperir holl ddogfennau'r Archwiliad gyda rhif adnabod unigryw at ddibenion cyfeirio a ddangosir mewn cromfachau sgwâr []. Mae gan fersiwn y cais o'r dDCO (Diwygiad D) y cyfeirnod [[APP-018](#)]. Ar ôl derbyn y cais, cyflwynodd yr Ymgeisydd nifer o ddogfennau diwygiedig yr ydym ni wedi'u derbyn, gan gynnwys dDCO pellach (Diwygiad E) sydd â'r cyfeirnod [[AS-014](#)] (fersiwn lân) a [[AS-015](#)] (fersiwn sy'n dangos newidiadau).

Rhagor o wybodaeth am y Gwrandawriad Llawr Agored (OFH1)

Mae'r ddogfen hon yn darparu gwybodaeth ychwanegol ar gyfer OFH1 fel yr hysbyswyd gan yr Awdurdod Archwilio yn **Atodiad E**.

Dyddiad:	Dydd Iau 22 Medi 2022
Amser:	10:00am, ystafell yn agor / Cynhadledd Trefniadau o 9:15am
Lleoliad:	Digwyddiad rhithwir (Microsoft Teams) ac Ystafell Crafnant, Venue Cymru, Promenâd, Llandudno LL30 1BB
Mynediad a Pharcio:	Ceir gwybodaeth uchod yn Atodiad A .

Cymryd rhan, cynnal a rheoli gwrandawriadau

Mewn Gwrandawriad Llawr Agored, mae hawl gan bob Parti â Buddiant (IP) (yn amodol ar bwerau rheoli'r Awdurdod Archwilio dros gynnal y gwrandawriad) i wneud sylwadau llafar ynglŷn â'r cais.

Gall yr Awdurdod Archwilio ofyn i'r rheiny sy'n dymuno siarad am yr un pwnc ddewis un unigolyn i roi eu barnau gerbron.

Ar y diwrnod, os bydd unigolion eraill sy'n bresennol yn dymuno gwneud cyflwyniadau nad ydynt eisoes wedi'u gwneud, bydd yn agored i'r Awdurdod Archwilio ddefnyddio ei ddisgresiwn o ran clywed unrhyw gyflwyniadau perthnasol gan y rheiny sy'n bresennol os bydd amser yn caniatáu hynny.

Hefyd, byddai o gymorth i'r Awdurdod Archwilio pe cyflwynir copïau o unrhyw grynodedau ysgrifenedig o'r achosion a gyflwynir yn llafar i'r Arolygiaeth Gynllunio erbyn **Terfyn Amser 1** Amserlen ddrafft yr Archwiliad (Dydd Llun 24 Hydref 2022).

Noder fod yr agenda canlynol yn ddangosol a gellir ei ddiwygio gan yr Awdurdod Archwilio ar ddechrau'r sesiwn wrandawriad.

Agenda ar gyfer OFH1

Eitem	Materion
1	Croeso, cyflwyniadau a threfniadau ar gyfer y gwrandawriad
2	Diben y Gwrandawriad Llawr Agored (OFH)
3	Cadarnhad o'r rheiny a hysbysodd yr Awdurdod Archwilio eu bod yn dymuno cael eu clywed yn y Gwrandawriad Llawr Agored
4	Cyflwyniadau llafar gan Bartïon â Buddiant

	<p>Bydd pob Parti â Buddiant sydd wedi nodi eu bod yn dymuno siarad yn cael eu gwahodd ymlaen yn eu tro i siarad wrth fwrdd a osodir o flaen yr Awdurdod Archwilio, neu drwy Microsoft Teams os ydynt yn mynychu'n rhithwir. Yn dilyn pob cyflwyniad, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Archwilio'n dymuno gofyn cwestiynau i'r siaradwr. Mae'n debygol y gofynnir i'r Ymgeisydd ymateb yn gryno i unrhyw faterion a godir gan bob Parti â Buddiant neu i ymateb mewn crynodeb ar ddiwedd pob Gwrandawriad Llawr Agored.</p> <p>Dylai cyflwyniadau llafar fod yn seiliedig ar sylwadau a wnaed yn ysgrifenedig yn flaenorol gan y cyfranogwr penodol. Fodd bynnag, ni ddylai sylwadau a wneir yn y gwrandawriad ailadrodd materion a drafodwyd yn flaenorol mewn cyflwyniad ysgrifenedig, ond yn hytrach dylent roi rhagor o fanylion, esboniad a chadarnhad tystiolaethol i helpu i hysbysu'r Awdurdod Archwilio.</p>
5	Cau'r Gwrandawriad Llawr Agored

Penderfyniadau Gweithdrefnol eraill a wnaed gan yr Awdurdod Archwilio

Mae'r Awdurdod Archwilio wedi gwneud y Penderfyniadau Gweithdrefnol canlynol o dan Adran 89(3) Deddf Cynllunio 2008 (PA2008):

1. Datganiadau Tir Cyffredin (SoCG)

Nod y Datganiad Tir Cyffredin yw rhoi ffocws ac arbed amser i'r Archwiliad drwy nodi materion nad ydynt yn destun anghydfod neu lle nad oes angen iddynt fod yn destun tystiolaeth bellach. Yn benodol, dylai'r Datganiad Tir Cyffredin nodi ble mae'r gwahaniaethau rhwng partïon a'r rhesymau am unrhyw anghytundeb neu faterion sydd heb eu datrys.

Nid oes angen i'r Datganiad Tir Cyffredin gynnwys rhestr gair am air o drafodaethau hyd yma, ond yn hytrach crynodeb byr o'r raddfa amser gyffredinol a phrif ddigwyddiadau sydd wedi arwain at y sefyllfa gytundeb a / neu anghytundeb bresennol.

Dylai'r Datganiad Tir Cyffredin gael ei gytuno rhwng yr Ymgeisydd a'r Partïon perthnasol eraill â Buddiant fel y rhestrir isod a **dylai'r Ymgeisydd ei gyflwyno** adeg y terfynau amser fel y'u pennwyd yn **Atodiad D**.

O ran rhai o'r Prif Faterion a nodwyd yn **Atodiad C**, byddai o gymorth i'r Awdurdod Archwilio pe bai'r Datganiadau Tir Cyffredin yn cael eu paratoi'n gynnar rhwng yr Ymgeisydd a rhai Partïon â Buddiant. Mae Amserlen ddrafft yr Archwiliad yn **Atodiad D** yn pennu **Terfyn Amser 1** ar gyfer cyflwyniadau Datganiadau Tir Cyffredin cychwynnol. Mae'r Awdurdod Archwilio'n disgwyl i'r Ymgeisydd barhau i weithio gyda'r Partïon â Buddiant, ac i gyflwyno diweddariadau rheolaidd. Mae'r Ymgeisydd i ddarparu Datganiad Tir Cyffredin terfynol wedi'i lofnodi a'i gytuno ar gyfer pob Parti â Buddiant erbyn **Terfyn Amser 8**, os na chafodd ei ddarparu mewn terfyn amser blaenorol.

Ar gyfer pob un o'r meysydd hynny sy'n destun anghydfod, byddai'n fuddiol pe bai pob parti'n rhoi eu hamcangyfrif o ran y tebygolrwydd y bydd anghytundeb yn parhau erbyn diwedd yr Archwiliad. Dylid gwneud hyn gan ddilyn model goleuadau traffig 'Isel', 'Canolig' ac 'Uchel'. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod Archwilio i asesu'r meysydd hynny lle mai trafodaethau llafar fyddai'n fwyaf buddiol efallai. Gofynnir am i Ddatganiadau Tir Cyffredin gael eu paratoi rhwng yr Ymgeisydd a'r partïon canlynol a enwir:

Parti	Pynciau i gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:
A. Cyngor Sir Ddinbych B. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy C. Cyngor Gwynedd D. Cyngor Sir Ynys Môn E. Cyngor Sir y Fflint F. Parc Cenedlaethol Eryri G. Cyngor Tref Llandudno H. Cyngor Cymuned Betws yn Rhos a Llanellian yn Rhos	<ul style="list-style-type: none"> • Fel bo'n gymwys, ar gyfer ei faes cyfrifoldeb, y materion a restrwyd o dan y penawdau perthnasol yn Aseiad Cychwynnol o Brif Faterion yr Awdurdod Archwilio. • Yr holl faterion a godwyd yn ei Sylw Perthnasol.

<p>I. Cyngor Cymuned Llanddulas a Rhyd y Foel J. Cyfoeth Naturiol Cymru K. Cadw L. Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol M. Llywodraeth Ynys Manaw (Territorial Sea Committee) N. National Air Traffic Services Ltd O. Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau P. Trinity House Q. Siambr Morgludiant y DU R. Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar S. Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur T. Gwasanaethau Cynllunio Archaeolegol Gwynedd U. Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft ac unrhyw erthyglau, gofynion a darpariaethau perthnasol. • Crynodeb o'r materion a gytunwyd; a chrynodeb a datganiad cryno o faterion heb eu cytuno neu heb eu datrys. • Manylion unrhyw gytundebau atodol, megis er enghraifft, Cytundebau Adran 106 drafft. • Unrhyw faterion eraill y gallai cytuno arnynt gynorthwyo â chynnal yr Archwiliad a chynorthwyo argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i'r Ysgrifennydd Gwladol.
<p>Ymgwymerwyr Statudol, gan gynnwys: V. National Grid Electricity Transmissions PLC W. SP Energy Networks (ar ran SP Manweb) X. Diamond Transmission Corporation Y. EirGrid Z. Rhyl Flats Wind Farm Ltd AA. North Hoyle Wind Farm Ltd BB. Network Rail CC. Dŵr Cymru Cyfyngedig</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl faterion a godwyd mewn Sylwadau Perthnasol. • Gorchymyn Caniatâd Datblygu (gan gynnwys darpariaethau diogelu). • Effeithiau ar weithrediadau. • Crynodeb o'r materion a gytunwyd; a datganiad cryno o faterion heb eu cytuno neu heb eu datrys. • Unrhyw faterion eraill y gallai cytuno arnynt gynorthwyo â chynnal yr Archwiliad a chynorthwyo argymhelliad yr Awdurdod Archwilio i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Gellir ychwanegu at y rhestr uchod yn ystod yr Archwiliad ac ni ddylid cymryd ei bod yn atal unrhyw Barti â Buddiant nad yw wedi'i restru a'r Ymgeisydd rhag drafftio Datganiad Tir Cyffredin.

Mae cynnwys awgrymedig y Datganiad Tir Cyffredin, a restrwyd uchod, yn ddangosol ac ni ddylid cymryd ei fod yn atal cynnwys unrhyw faterion eraill y mae partion yn ystyried eu bod yn bwysig a pherthnasol.

Yn ogystal, dylai Datganiadau Tir Cyffredin ymdrin â'r pynciau canlynol lle bo'n berthnasol (gellir ychwanegu at hyn wrth i'r Archwiliad fynd rhagddo):

- Cydymffurfio â pholisi cynllunio
- Methodoleg ar gyfer asesu'r effaith amgylcheddol gan gynnwys asesiad o effeithiau cronol
- Dulliau casglu data
- Data sylfaenol

- Dadansoddiad o ddata / dadansoddiad ystadegol, dull modelu a chyflwyno canlyniadau
- Mynegi barnau arbenigol a rhagdybiaethau yn llawn
- Adnabod nodweddion perthnasol a sensitifwydd nodweddion perthnasol, a meintioli'r effaith bosibl
- Effeithiau tebygol, gan gynnwys effeithiau adeiladu, gweithredu a datgomisiynu
- Mesurau lliniaru ymarferol y gellir eu cyflawni, a dull ar gyfer sicrhau'r cyfryw fesurau lliniaru yn y DCO
- Amlinelliad o'r Cod Ymarfer Adeiladu gan gynnwys atodiadau cysylltiedig

Dylai pob un o'r Datganiadau Tir Cyffredin a restrwyd uchod ymdrin ag erthyglau, gofynion a darpariaethau eraill perthnasol yn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft. Dylai unrhyw Barti â Buddiant sy'n ceisio am i erthygl, gofyniad neu ddarpariaethau eraill gael eu hail-eirio ddarparu ffurf y geiriau a geisir yn y Datganiad Tir Cyffredin.

Lle na ellir cytuno Datganiad Tir Cyffredin rhwng y partïon erbyn **Terfyn Amser 1**, neu, i'r graddau bod unrhyw safbwynt awdurdod lleol yn cynrychioli barn ar lefel swyddog yn unig, gofynnir am i fersiynau drafft o'r Datganiad Tir Cyffredin hwnnw gael eu **cyflwyno gan yr Ymgeisydd** erbyn **Terfyn Amser 1**. Dylai safbwynt y Partïon perthnasol â Buddiant gael ei gadarnhau wedyn yn ystod yr Archwiliad.

Bydd cynnwys Datganiadau Tir Cyffredin yn helpu hysbysu'r Awdurdod Archwilio ynglŷn â'r angen i gynnal unrhyw Wrandawiadau Mater Penodol yn ystod yr Archwiliad, a galluogi'r Awdurdod Archwilio a'r Ymgeisydd i roi hysbysiad o'r cyfryw wrandawiadau o leiaf 21 diwrnod cyn iddynt gael eu cynnal. Yn ogystal, mae'r Awdurdod Archwilio'n gofyn, adeg y terfynau amser perthnasol a bennwyd yn yr amserlen ddrafft, bod yr Ymgeisydd yn darparu Datganiad Cyffredinedd Datganiadau Tir Cyffredin i roi diweddariad ar gynnydd gyda Datganiadau Tir Cyffredin, trosolwg o'r meysydd lle ceir anghytundeb neu anghydfod rhwng y Partïon â Buddiant, a'r raddfa amser debygol ar gyfer cyflwyno.

2. Dogfennau wedi'u Diweddarau

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn, adeg pob terfyn amser, bod yr Ymgeisydd yn darparu traciwr dogfennau'r cais wedi'i ddiweddarau (Canllaw i'r Cais [\[AS-002\]](#)) sy'n rhoi rhestr o'r dogfennau mwyaf diweddar cyn yr Archwiliad. Mae'n rhaid cyflwyno fersiwn derfynol erbyn **Terfyn Amser 8** cyn bod yr Archwiliad yn cau.

Pan gaiff dogfennau eu diweddarau, fel sy'n safonol mewn Archwiliadau, mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn am i ddau gopi gael eu darparu – copi 'glân' a fersiwn 'sy'n dangos y newidiadau', gan ddangos y newidiadau o'r iteriad blaenorol. Mae hyn yn helpu'r Awdurdod Archwilio a Phartïon â Buddiant i gadw cofnod o newidiadau o un terfyn amser i'r nesaf.

3. Traciwr Datganiadau Polisi Cenedlaethol

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd ddarparu Tabl cynhwysfawr o Gysondeb â Datganiadau Polisi Cenedlaethol (NPS) (Traciwr NPS) ar gyfer EN-1, EN-3 ac EN-5 gan bennu rhif paragraff yr NPS perthnasol, gofyniad yr NPS, y

cydymffurfio â'r NPS trwy gyfeiriad at ddogfennau a gyflwynwyd ac esboniad cryno, ynghyd ag unrhyw ddiweddariad dilynol. Mae'r traciwr diweddaredig i'w gyflwyno adeg pob terfyn amser yr Archwiliad fel y pennwyd yn Amserlen yr Archwiliad. Dylai hwn gofnodi unrhyw newidiadau ac atodiadau i safbwynt yr Ymgeisydd ar gydymffurfiaeth â Datganiadau Polisi Cenedlaethol a ddangosir gan y cyflwyniadau yn ystod yr Archwiliad.

4. Diweddariad ar y Drwydded Forol

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn i'r Ymgeisydd ddarparu diweddariad ar gyflwyno a chynnydd y Drwydded Forol adeg **Terfyn Amser 1** ac adeg terfynau amser dilynol lle bo'n berthnasol / ofynnol (pe bai cynnydd wedi'i wneud yn y cyfamser). Dylid cyflwyno fersiwn derfynol adeg **Terfyn Amser 8** cyn bod yr Archwiliad yn cau.

5. Adroddiadau am yr Effaith Leol (LIR)

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn am Adroddiad am yr Effaith Leol (LIR) gan Gyngor Sir Ddinbych, yr Awdurdod Lleol sy'n derbyn, ac mae'n croesawu LIRs gan unrhyw awdurdodau lleol perthnasol eraill a allai ddymuno cyflwyno un, ac yn benodol, ond heb fod yn gyfyngedig i, Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir y Fflint a Pharc Cenedlaethol Eryri.

Gofynnir am i'r holl LIRs gael eu cyflwyno i'r Archwiliad heb fod yn hwyrach nag erbyn **Terfyn Amser 1** ddydd Llun 24 Hydref 2022.

Mae'r Awdurdod Archwilio yn gofyn hefyd am i LIRs diweddaredig gael eu cyflwyno adeg y **Terfyn Amser 8** olaf, gan ddangos lle mae cytundeb neu newid wedi'i wneud yn ystod yr Archwiliad ar bob pwnc allweddol a gynhwysir yn yr LIR cychwynol.

6. Cyflwyniadau cloi

Mae'r Awdurdod Archwilio'n gofyn i'r Ymgeisydd a phob Parti â Buddiant i gyflwyno'u cyflwyniadau cloi adeg y **Terfyn Amser 8** olaf, yn nodi safbwyntiau cloi yr ymatebydd ar eu prif faterion pan fydd yr Archwiliad yn cau.

7. Derbyng Cyflwyniadau Ychwanegol i'r Archwiliad

Ar ôl derbyn y cais, cyflwynodd yr Ymgeisydd ystod o ohebiaeth ar 6 Mehefin 2022 i ymateb i'r llythyr a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod Archwilio ar 18 Mai 2022 o dan adran 51 PA2008.

Arferodd yr Awdurdod Archwilio ei ddisgresiwn i dderbyn y Cyflwyniadau Ychwanegol a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd. Mae'r dogfennau bellach wedi'u cyhoeddi ar [dudalen y prosiect](#) ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Rhoddir manylion y dogfennau wedi'u hadolygu / diwygio a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd yn [llyfrgell yr archwiliad](#), a chyfeirir atynt fel [AS-001] to [AS-034]. Yn gryno, mae'r dogfennau'n cynnwys amryw ddiwygiadau i benodau yn y Datganiad Amgylcheddol ac i'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft mewn ymateb i gwestiynau gan yr Awdurdod Archwilio ynglŷn ag eglurhad ac anghysonderau, nifer o atodiadau sydd yn eisiau o'r Datganiad Amgylcheddol, a rhai newidiadau i gynlluniau er budd eglurder.

Ymhellach i'r uchod, roedd rhai anghysonderau rhwng y fersiwn lân o'r Llyfr Cyfeirnodau [AS-020] a'r fersiwn sy'n dangos y newidiadau [AS-019]. Cyflwynodd yr Ymgeisydd fersiwn lân ychwanegol i fynd i'r afael â hyn, ac arferodd yr Awdurdod Archwilio ei ddisgresiwn i'w derbyn. Cyfeirir at y ddogfen hon fel [AS-020a].

Hefyd, fe wnaeth yr Awdurdod Archwilio arfer ei ddisgresiwn i dderbyn Cyflwyniadau Ychwanegol gan y canlynol:

- Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, cyfeirir ati fel [AS-035];
- Janet Finch-Saunders AS, cyfeirir ati fel [AS-036]; a
- Natural England, cyfeirir ati fel [AS-037].

Gwybodaeth am gyflwyno adeg terfynau amser archwiliad

Chi sydd i benderfynu sut ydych yn dymuno gwneud eich cyflwyniad i'r Arolygiaeth Gynllunio. Gallwch ddewis gwneud hynny trwy [e-bost](#) neu'r post, neu hyd yn oed ei gyflwyno'n bersonol, ar yr amod ei fod yn cyrraedd erbyn y terfyn amser perthnasol. Mae'r rhan fwyaf o Bartion â Buddiant (IP) yn gwneud eu cyflwyniadau trwy [e-bost](#). Darperir gwybodaeth gyswllt ar dudalen berthnasol y prosiect ar wefan Seilwaith Cenedlaethol ac ym Mhenderfyniad Gweithdrefnol yr Awdurdod Cynllunio (llythyr Rheol 6). Os ydych chi'n gwneud cyflwyniad ar ran unigolyn arall neu sefydliad, ac nad oes eich rhif cyfeirnod unigryw eich hun gennych, yna dylech nodi rhif cyfeirnod unigryw yr unigolyn neu sefydliad rydych yn eu cynrychioli. Os nad ydych chi'n Barti â Buddiant sydd wedi cofrestru, yna mae gan yr Awdurdod Archwilio y disgrisiwn i benderfynu derbyn eich cyflwyniad neu beidio.

Bydd cyflwyniadau'n cael eu cyhoeddi ar dudalen gwe'r prosiect cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Terfyn Amser perthnasol gau. I gael rhagor o wybodaeth am gyhoeddi cyflwyniadau, edrychwch ar ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#). Byddwch yn gallu cyflwyno dogfen (lanlwytho ffeil), gwneud sylw ar ffurf testun neu'r ddau. Mae modd lanlwytho amryfal ffeiliau ar gyfer pob eitem cyflwyniad unigol. Dylai atodiadau electronig gael eu labelu'n glir gyda theitl y testun, a rhaid iddynt beidio â bod yn fwy na 50MB.

Rhaid i gyflwyniadau beidio â chynnwys hyperddolenni at ddogfennau / tystiolaeth a geir ar wefan trydydd parti, er enghraifft, adroddiadau technegol, erthyglau cyfryngau ac ati. Gweler [Nodyn Cyngor 8.4: Yr Archwiliad yr Arolygiaeth Gynllunio](#) i gael rhagor o wybodaeth am wneud cyflwyniadau ysgrifenedig.

Rhaid gwneud pob cyflwyniad mewn fformat y gellir ei weld yn llawn ar dudalen y prosiect ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol. Dylai crynodeb gyd-fynd ag unrhyw gyflwyniadau sy'n fwy na 1500 o eiriau hefyd; ni ddylai'r crynodeb hwn fod yn fwy na 10% o'r testun gwreiddiol. Os ydych yn gwneud cyflwyniad trwy [e-bost](#), dylech fewnosod teitl y terfyn amser perthnasol yn unol ag Amserlen yr Archwiliad yn y 'llinell pwnc' / 'subject line' - bydd hyn yn helpu'r Tîm Achos wybod ynglŷn â beth y mae a wnelo eich cyflwyniad. Os ydych o'r farn nad yw eich cyflwyniad yn cydweddu â disgrifiad unrhyw un o'r penawdau terfyn amser, nodwch 'Arall' yn llinell pwnc eich neges e-bost.

Os cewch unrhyw broblemau wrth gyflwyno dogfen terfyn amser, cysylltwch â'r Tîm Achos gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn, ac fe wnawn nhw eich cynorthwyo.

Argaeledd Dogfennau'r Archwiliad

Mae dogfennau'r cais a'r Sylwadau Perthnasol ar gael ar [dudalen we'r prosiect](#) ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol.

Bydd yr holl ddogfennau ychwanegol a gyflwynir yn ystod yr Archwiliad yn cael eu cyhoeddi hefyd o dan y tab 'Documents / Dogfennau' yn y lleoliad uchod.

Llyfrgell yr Archwiliad

Er mwyn hwyluso'r llywio, cyfeiriwch at Lyfrgell yr Archwiliad (EL) y cewch fynediad iddi trwy glicio'r botwm glas o dan y tab 'Documents / Dogfennau'. Caiff Llyfrgell yr Archwiliad ei diweddarau'n rheolaidd trwy gydol yr Archwiliad.

Mae Llyfrgell yr Archwiliad yn cofnodi ac yn darparu hyperddolen at:

- bob un o ddogfennau'r cais;
- pob sylw a wneir i'r Archwiliad; a
- phob Penderfyniad Gweithdrefnol a wneir gan yr Awdurdod Archwilio.

Rhoddir cyfeirnod unigryw i bob dogfen a fydd yn aros yn sefydlog trwy gydol yr Archwiliad. Hefyd, darperir hyperddolen at bob dogfen ar wefan y prosiect. Defnyddiwch y rhifau cyfeirnod unigryw a gymhwysir yn Llyfrgell yr Archwiliad wrth gyfeirio at unrhyw Ddogfennau Archwiliad mewn unrhyw gyflwyniadau a wnewch yn y dyfodol.

Lleoliadau adneuo electronig

Gellir gweld dogfennau'n electronig, yn rhad ac am ddim, yn y lleoliadau adneuo electronig sydd wedi'u rhestru yn y tabl isod. Sylwer, bydd angen i chi ddod â rhyw fath o brawf adnabod a chofrestru fel aelod / aelod o'r llyfrgell i ddefnyddio cyfrifiadur yn y lleoliadau hyn, os nad ydych eisoes yn aelod.

Gallai'r oriau agor ac argaeledd technoleg gwybodaeth a nodir yn y tabl isod fod yn destun newidiadau neu gyfyngiadau er mwyn mynd i'r afael â gofynion iechyd y cyhoedd o ganlyniad i Coronafeirws (COVID-19). Gan gofio bod y dogfennau ar gael ar y wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ac effaith cyfyngiadau ar iechyd y cyhoedd, ystyriwch eich angen i fynychu'r lleoliadau hyn yn ofalus. Gwiriwch beth yw'r amgylchiadau cyfredol gyda'r lleoliadau perthnasol cyn i chi fynychu.

Awdurdod Lleol	Lleoliad/cyfeiriad	Oriau agor
Cyngor Sir Ddinbych	Llyfrgell Prestatyn - Kings Avenue, Prestatyn LL19 9LH, DU	Dydd Llun: 9:30am – 6:00pm Dydd Mawrth: 9:30am – 5:00pm Dydd Mercher: 9:30am – 1:00pm Dydd Iau: 9:30am – 5:00pm Dydd Gwener: 9:30am – 5:00pm

Atodiad J

		Dydd Sadwrn: 9:30am – 12:30pm Dydd Sul: AR GAU
Cyngor Sir Ddinbych	Llyfrgell y Rhyl - 11A Stryd yr Eglwys, Y Rhyl LL18 3AA, DU	Dydd Llun: 9:30am – 6:00pm Dydd Mawrth: 9:30am – 5:00pm Dydd Mercher: 9:30am – 5:00pm Dydd Iau: 9:30am – 5:00pm Dydd Gwener: 9:30am – 5:00pm Dydd Sadwrn: 9:30am – 12:30pm Dydd Sul: AR GAU
Cyngor Sir Ddinbych	Llyfrgell Rhuddlan - 9 Lôn y Ficerdy, Rhuddlan, Y Rhyl LL18 2UE, DU	Dydd Llun: 9:30am – 12:30pm, 1:30pm – 5:00pm Dydd Mawrth: AR GAU Dydd Mercher: 9:30am – 12:30pm, 1:30pm – 5:00pm Dydd Iau: 1:30pm – 5:00pm Dydd Gwener: 9:30am – 12:30pm, 1:30pm – 5:00pm Dydd Sadwrn: AR GAU Dydd Sul: AR GAU
Cyngor Sir Ddinbych	Llyfrgell Llanelwy - Y Roe, Llanelwy LL17 0LU, DU	Dydd Llun: 9:30am – 12:30pm, 1:30pm – 5:00pm Dydd Mawrth: AR GAU Dydd Mercher: 9:30am – 12:30pm, 1:30pm – 5:00pm Dydd Iau: AR GAU Dydd Gwener: 9:30am – 12:30pm, 1:30pm – 5:00pm Dydd Sadwrn: 9:30am – 12:30pm Dydd Sul: AR GAU
Cyngor Sir y Fflint	Llyfrgell Treffynnon - Canolfan Hamdden	Dydd Llun: 9:00am – 5:00pm

Atodiad J

	Treffynnon, North Road, Treffynnon, Sir y Fflint, CH8 7UZ Sir y Fflint	Dydd Mawrth: 9:00am – 5:00pm Dydd Mercher: 9:00am – 5:00pm Dydd Iau: 9:00am – 5:00pm Dydd Gwener: 9:00am – 5:00pm Dydd Sadwrn: 9:00am – 1:00pm Dydd Sul: AR GAU
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Llyfrgell Bae Colwyn - Woodland Road West, Bae Colwyn LL29 7DH	Dydd Llun: 9:00am – 5:30pm Dydd Mawrth: 10:00am – 7:00pm Dydd Mercher: 9:00am – 5:30pm Dydd Iau: 9:00am – 5:30pm Dydd Gwener: 9:00am – 5:30pm Dydd Sadwrn: 9:30am – 3:00pm Dydd Sul: AR GAU
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Llyfrgell Llandudno - 48 Stryd Mostyn, Llandudno LL30 2RP	Dydd Llun: 9:00am – 5:30pm Dydd Mawrth: 9:00am – 5:30pm Dydd Mercher: 9:00am – 5:30pm Dydd Iau: 10:00am – 7:00pm Dydd Gwener: 9:00am – 5:30pm Dydd Sadwrn: 9:30am – 3:00pm Dydd Sul: AR GAU
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Llyfrgell Abergele – Stryd y Farchnad, Abergele LL22 7BP	Dydd Llun: 9:30am – 5:00pm Dydd Mawrth: 9:30am – 1:00pm Dydd Mercher: 1:30pm – 7:00pm Dydd Iau: 9:30am – 5:00pm Dydd Gwener: 9:30am – 5:00pm

		Dydd Sadwrn: 9:30am – 12:30pm Dydd Sul: AR GAU
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Llyfrgell Llanfairfechan - Village Road, Llanfairfechan LL33 0AA	Dydd Llun: AR GAU Dydd Mawrth: 10:00am – 1:00pm Dydd Mercher: AR GAU Dydd Iau: AR GAU Dydd Gwener: 10:00am – 1:00pm, 2:00pm – 5:00pm Dydd Sadwrn: 10:00am – 1:00pm Dydd Sul: AR GAU
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	Conwy Culture Centre - Town Ditch Road, Conwy LL32 8NU	Dydd Llun: 9:30am – 5pm Dydd Mawrth: 10am – 7pm Dydd Mercher: 9:30am – 5:00pm Dydd Iau: 9:30am – 5:00pm Dydd Gwener: 9:30am – 5:00pm Dydd Sadwrn: 10am – 1:00pm Dydd Sul: AR GAU
Cyngor Gwynedd	Llyfrgell Gyhoeddus Bangor - Ffordd Gwynedd, LL57 1DT	Dydd Llun: 9:30am – 6:30pm Dydd Mawrth: 9:30am – 6:30pm Dydd Mercher: 9:30am – 5:00pm Dydd Iau: 9:30am – 5:00pm Dydd Gwener: 9:30am – 5:00pm Dydd Sadwrn: 9:30am – 1:00pm Dydd Sul: AR GAU
Costau argraffu		
Du a gwyn		
Lliw		
<ul style="list-style-type: none"> • Llyfrgell Prestatyn • Llyfrgell Llanelwy • Llyfrgell Rhuddlan • Llyfrgell Y Rhyl 		
Mae mynediad am ddim i gyfrifiadur ar gael i aelodau llyfrgell.		
A4	20c y dudalen	60c y dudalen

A3	30c y dudalen	£1.20 y dudalen
